



Adroddiad Archwilio Blynyddol 2014

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Cyhoeddwyd: Chwefror 2015

Cyfeirnod y ddogfen: 125A2015

Statws yr adroddiad

Lluniwyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru - infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a'm cynorthwyodd i baratoi'r adroddiad hwn yn cynnwys Dave Thomas, Richard Harries, Ann-Marie Harkin, Matthew Coe a Carol Moseley.

Cynnwys

Adroddiad cryno	4
Adroddiad manwl	
Ynglŷn â'r adroddiad hwn	7
Adran 1: Archwilio cyfrifon	8
Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2013-14, er i mi ddwyn sawl mater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio wrth wneud hynny	8
Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau	12
Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i reoli cyllidebau a monitro cynlluniau arbed yn effeithiol, ond ceir risgiau sylweddol i'r sefyllfa ariannol, ac i wasanaethau, yn sgil maint yr arbedion sydd eu hangen yn ystod y tair blynedd nesaf	12
Mae'r Bwrdd wedi pennu gweledigaeth glir ac yn hyrwyddo diwylliant sy'n canolbwyntio ar ansawdd. Cafwyd gwelliannau i drefniadau llywodraethu ac o ran rheoli pryderon, ond mae angen gwelliannau pellach er mwyn cryfhau agweddau pwysig ar lywodraethu ansawdd, adeiladu capasiti'r sefydliad ac ymwreiddio dysgu'n llawn o fewn y sefydliad	15
Er i mi ganfod enghreifftiau o arfer da yn rhan o'm gwaith archwilio perfformiad, ceir cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn sawl maes allweddol	30
Atodiadau	
Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf	39
Ffi archwilio	40
Risgiau archwilio sylweddol	41

Adroddiad cryno

1. Rhydd yr adroddiad hwn grynodedb o'm canfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2014.
2. Mae'r gwaith yr wyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
3. Yn fy ngwaith archwilio canolbwyntiaid ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am agweddau penodol fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a'u cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Dangosir yr adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf yn [Atodiad 1](#).
4. Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynir gerbron y Pwyllgor Archwilio ar 19 Chwefror 2015, ac yn dilyn hynny gerbron cyfarfod y Bwrdd ar 26 Mawrth 2015, gan ddarparu copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogwn y Bwrdd Iechyd yn gryf i gyhoeddi'r adroddiad hwn ar raddfa ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).
5. Ceir crynodeb o'r prif negeseuon o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

Adran 1: Archwilio cyfrifon

6. Rhoddais farn ddiamedod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2013-14, er i mi ddwyn sawl mater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio wrth wneud hynny. Y materion hyn oedd dau gamddatganiad dibwys heb eu cywiro; a dwy agwedd lle mae angen gwella adroddiadau ariannol, yn gysylltiedig â mynegeoio a gwrthdroi amhariadau'r flwyddyn gynt, a mesur cydymffurfiaeth â Pholisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus.
7. Deuthum hefyd i'r casgliad:
 - fod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi mewn modd priodol ac yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
 - bod gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheoli effeithiol er mwyn lleihau'r risg o gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol; a
 - bod systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol yn ôl y bwriad.
8. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2013-14. Ceir mwy o fanylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn adran 2 yr adroddiad hwn.

Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

9. Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Yn fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, archwiliais gadernid trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu, a'r cynnydd a wnaed ers y llynedd o ran llywodraethu ansawdd a'r trefniadau ar gyfer mesur a gwella profiad y claf/defnyddiwr. Cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad hefyd ar feysydd darparu gwasanaeth penodol. Yn sgil y gwaith hwn, deuthum i'r casgliadau canlynol:

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i reoli cyllidebau a monitro cynlluniau arbed yn effeithiol, ond ceir risgiau sylweddol i'r sefyllfa ariannol, ac i wasanaethau, yn sgil maint yr arbedion sydd eu hangen yn ystod y tair blynedd nesaf.

10. Yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol, bu rheolaeth dda ar y gyllideb, rheoli ariannol da a chyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn fodd i sicrhau cydbwysedd ariannol i'r Bwrdd yn 2013-14. Fodd bynnag, cafodd gostyngiad mewn gweithgarwch dewisol effaith ar y sefyllfa ariannol, ac mae risgiau sylweddol yn parhau wrth bennu cyllidebau cytbwys yn y dyfodol.
11. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau lefel debyg o arbedion yn 2014-15 ag a sicrhawyd o'r blaen, ac mae'n dibynnu ar gyflawni arbedion pellach ar raddfa genedlaethol er mwyn adennill ei gostau. Ceir risgiau o hyd nad yw'r sefyllfa ariannol yn gynaliadwy nac yn gyflawnadwy yn y tymor canolig.

Mae'r Bwrdd wedi pennu gweledigaeth glir ac yn hyrwyddo diwylliant sy'n canolbwyntio ar ansawdd. Cafwyd gwelliannau i drefniadau llywodraethu ac o ran rheoli pryderon, ond mae angen gwelliannau pellach er mwyn cryfhau agweddau pwysig ar lywodraethu ansawdd, adeiladu capasiti'r sefydliad ac ymwreiddio dysgu'n llawn o fewn y sefydliad.

12. Dyma'r prif ganfyddiadau o'm hadolygiad o drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd:
- Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) y Bwrdd Iechyd yn pennu gweledigaeth glir ac yn darparu sail resymol er mwyn symud y sefydliad yn ei flaen a llywio ei weithgarwch gwella.
 - Mae portffolios gweithredol wedi cael eu mireinio ac mae'r strwythur trefniadol yn cael ei ddiwygio er mwyn rhoi cefnogaeth well i gyflawni amcanion strategol y sefydliad. Er hynny, mae newid y diwylliant rheoli ac adeiladu capasiti gweithredol yn parhau i fod yn heriau.
 - Mae'r Bwrdd yn rhoi arweiniad strategol da ac mae'r strwythurau pwyllgor diwygiedig yn cefnogi llywodraethu da. Bu gwelliannau i rai o'r trefniadau llywodraethu, ond mae rhai agweddau pwysig ar lywodraethu ansawdd i'w gwella o hyd.
 - Mae'r rheolaethau mewnol yn effeithiol ar y cyfan, a'r trefniadau ar gyfer rheoli gwybodaeth, risg a pherfformiad yn parhau i gael eu cryfhau.

-
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad i wella ansawdd a phrofiad y claf, a bu cynnydd sylweddol wrth gasglu adborth gan gleifion a gwella'r broses o reoli pryderon. Fodd bynnag, mae angen datblygu rhai agweddau pwysig ar y trefniadau i graffu ar ansawdd, ac mae mwy o waith i'w wneud er mwyn ymwreiddio dysgu o fewn y sefydliad.

Er i mi ganfod enghreifftiau o arfer da yn rhan o'm gwaith archwilio perfformiad, ceir cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn sawl maes allweddol.

13. Dyma'r prif ganfyddiadau o'm hadolygiadau archwilio perfformiad:

- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu agenda uchelgeisiol ar gyfer newid, yn dangos ymgysylltiad cryf â'r gymuned ac yn buddsoddi mewn technolegau cefnogol. Fodd bynnag, ceir risgiau'n gysylltiedig ag ystadau a chyfarpar, a heriau o ran gwella gwaith cynllunio'r gweithlu ac o ran sicrhau bod gan reolwyr y sgiliau i arwain.
- Nid yw rôl y gwasanaeth nyrsio ardal wedi'i diffinio'n glir; ceir amrywio anesboniadwy yn y defnydd o nyrsys ardal; nid yw'r adnoddau a'r galw am y gwasanaeth wedi'u halinio'n ddigonol; ac mae diffyg trefniadau systematig ar gyfer monitro ansawdd a pherfformiad ar lefel y sefydliad.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd codio clinigol ac mae rhai o'r prosesau cysylltiedig yn gadarn, ond mae angen gwneud mwy i fynd i'r afael â'r ffactorau ehangach sy'n effeithio ar gywirdeb ac amseroldeb codio.
- Mae galw cynyddol am wasanaethau orthopedig yn rhoi pwysau ar wasanaethau cleifion allanol, ac mae aneffeithlonrwydd ar y llwybr cleifion mewnol yn effeithio ar y defnydd o adnoddau ac ar brofiad y claf, gyda rhai canlyniadau ar ôl llawdriniaeth yn llai cadarnhaol nag mewn lleoedd eraill.
- Mae data absenoldeb salwch a ddefnyddir ar gyfer rheoli perfformiad yn ddibynadwy, ac mae mewnbwn y weithrediaeth wedi gwella rheolaeth a chraffu ar absenoldeb salwch, er bod angen datganoli hyn ymhellach yn y tymor hwy.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o archwiliadau blaenorol, ond gallai'r ymateb fod yn gyflymach, ac mae camau gweithredu yn dal heb eu cyflawni mewn ambell faes allweddol.

14. Hoffwn gydnabod a diolch am gymorth a chydweithrediad staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd yn ystod yr archwiliad.

Adroddiad manwl

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

15. Yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd, nodir prif ganfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2013 a mis Tachwedd 2014.
16. Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodir yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
 - a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
 - b) fy modloni fy hun fod y gwariant a'r incwm a drafodir yn y cyfrifon wedi'u defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd, ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli; ac
 - c) fy modloni fy hun fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
17. Mewn perthynas ag (c), yr wyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, drwy ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
 - canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
 - gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliai'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a'r defnydd o adnoddau;
 - archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
 - chanlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bônt yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
 - gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.
18. Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn rhoi crynodeb o'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn, y ceir rhestr ohonynt yn **Atodiad 1**.
19. Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
 - Adran 1: Archwilio cyfrifon; ac
 - Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
20. Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am y gost wirioneddol o gyflawni fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ochr yn ochr â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol.
21. I gloi, yn **Atodiad 3** nodir y risgiau sylweddol o ran archwilio ariannol a amlygwyd yn fy Amlinelliad Archwilio Blynyddol ar gyfer 2014, a'r modd yr ymdriniwyd â'r risgiau hynny drwy'r archwiliad.

Adran 1: Archwilio cyfrifon

- 22.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2013-14. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lif arian parod. Mae'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sefydliad yn elfen hanfodol er mwyn ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod mewn modd priodol.
- 23.** Wrth ystyried datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi fy marn ynglŷn â'r canlynol:
- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
 - a ydynt yn rhydd rhag camddatganiadau o bwys - a achoswyd drwy dwyll neu drwy wall;
 - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
 - a yw'r rhan honno sydd i'w harchwilio o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth wedi'i pharatoi'n briodol; a
 - rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.
- 24.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).
- 25.** Wrth gyflawni'r gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:
- amgylchedd y Bwrdd Iechyd o ran rheolaeth fewnol; a
 - systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2013-14, er i mi ddwyn sawl mater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio wrth wneud hynny

Cafodd cyfrifon y Bwrdd Iechyd eu paratoi mewn modd priodol, ac maent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol.

- 26.** Lluniwyd y datganiadau ariannol drafft i'w harchwilio erbyn y dyddiad terfyn cytunedig, sef 2 Mai 2014, ac roedd y rhain o safon dda. Cawsom wybodaeth ddefnyddiol yn brydlon, a chanfuom fod yr wybodaeth honno'n berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymharus, yn sylweddol ac yn hawdd ei deal. Mae a wnelo'r amcangyfrifon sylweddol sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol yn bennaf â chroniadau (gwariant gofal sylfaenol a thâl gwyliau), a darpariaethau (Gofal Iechyd Parhaus, esgeulustod clinigol, anafiadau personol ac eraill). Daethom i'r casgliad bod polisïau ac amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol, a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir. Ni chawsom unrhyw anawsterau o bwys yn ystod yr archwiliad, ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith.

27. Cyn rhoi fy marn archwilio ar y cyfrifon, y mae'n ofynnol i mi, yn unol ag ISA 260, adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd lechyd ar 3 Mehefin 2014. Ceir crynodeb yn [Arddangosyn 1](#) o'r prif faterion a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol

Mater	Sylwadau'r archwilwyr
Croniadau gwariant Gofal lechyd Parhaus a Rhagnodi	<p>Adolygwyd y fethodoleg ar gyfer cyfrifo'r cronid ar gyfer gwariant Gofal lechyd Parhaus, a phrofwyd y data a oedd yn sail i'r cyfrifiad hwn. Daethom i'r casgliad bod y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r ddarpariaeth yn rhesymol. Fodd bynnag, wrth brofi'r data gwaelodol, canfuwyd bod cyfradd wythnosol anghywir wedi cael ei defnyddio mewn un ardal leol, gan achosi tanndatganiad o £187k i'r cronid.</p> <p>Mae a wnelo'r cronid Rhagnodi, sef cyfanswm o £14.381 miliwn â'r amcangyfrif o wariant rhagnodi ar gyfer misoedd Chwefror a Mawrth 2014. Rydym yn fodlon â'r broses ar gyfer amcangyfrif y cronid hwn. Yn ystod mis Mai 2014, mae'r Bwrdd lechyd wedi cael gwybod am y gwir werthoedd gwariant o'r adroddiadau archwilio rhagnodi ar gyfer mis Chwefror a mis Mawrth 2014. Cyfanswm y gwir wariant ar gyfer y cyfnod hwn oedd £14.214 miliwn, felly cafwyd gorddatganiad o £167k i'r cronid,</p> <p>Ni wnaeth swm net y ddau gamddatganiad uchod a oedd heb eu cywiro, sef £20k, effeithio ar dargedau ariannol y Bwrdd lechyd na'r farn archwilio.</p>
Balansau Pwyllgor Gwasanaethau lechyd Arbenigol Cymru	<p>Gan fod y Bwrdd lechyd yn rhannu risgiau ariannol Pwyllgor Gwasanaethau lechyd Arbenigol Cymru (PGIAC) â'r holl Fyrddau lechyd lleol yng Nghymru, mae angen adlewyrchu diwygiadau o archwiliad PGIAC yn natganiadau ariannol pob Bwrdd lechyd lleol. Cadarnhawyd gyda thîm archwilio PGIAC nad oedd unrhyw faterion yn codi o archwiliad PGIAC a oedd yn effeithio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd lechyd.</p>
Mynegeio a gwrthdroi amhariadau'r flwyddyn gynt	<p>Cododd un mater yn gysylltiedig â'r ymdriniaeth gyfrifo wrth fynegeio ar draws cyrff y GIG yng Nghymru. Mae Llawlyfr Cyfrifon Llywodraeth Cymru wedi egluro y dylid defnyddio mynegeio ar asedau i wrthdroi dibrisiant amhariadau'r flwyddyn gynt i ddechrau, a chredydu i'r gronfa ailbriso wedi hynny. Mae'r Bwrdd lechyd wedi cadarnhau gyda'i ddarparydd meddalwedd nad yw gwaith mynegeio yn cael ei drin yn unol â Llawlyfr Cyfrifon Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Nid oedd y Bwrdd lechyd yn gallu cyfrif union effaith unrhyw gamddatganiad posibl, gan y byddai hynny'n golygu llawer o waith llaw. Ers hynny, mae'r Bwrdd lechyd wedi gofyn i ddarparydd ei feddalwedd ddatblygu diweddariad i'r rhaglen er mwyn datrys y broblem yn 2014-15. Ar sail yr wybodaeth sydd ar gael i ni, casglwyd nad oedd camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol.</p>

Mater	Sylwadau'r archwilyr
Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus (PTSC) - Mesur Cydymffurfiaeth	Mae'r datganiadau ariannol yn nodi perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn 'cod talu prydlon' PTSC - mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed o 95% ar gyfer nifer y taliadau y tu allan i'r GIG cyn pen 30 diwrnod ar ôl darparu. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adrodd perfformiad o 94.7% yn erbyn y targed hwn ar gyfer 2013-14. Ceir gofyniad clir yn y Llawlyfr Cyfrifon i Fyrddau Iechyd gynnwys taliadau a wnaed i gontractwyr gofal sylfaenol yn eu data ar berfformiad y PTSC. Nid yw system Exeter, a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd i brosesu taliadau gofal sylfaenol, yn darparu unrhyw wybodaeth ystadegol ynghylch nifer y diwrnodiau a gymerir i wneud taliadau. Yn gyffredin â rhai cyrff Iechyd eraill yng Nghymru, mae'r Bwrdd Iechyd felly wedi tybio bod pob taliad wedi'i wneud o fewn 30 diwrnod. Rydym felly o'r farn ei bod hi'n bosibl bod data ar berfformiad Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus oddi mewn ac oddi allan i'r GIG wedi'i orddatgan, ond ni allwn gyfrifo maint y gorddatganiad. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei drefniadau ar gyfer 2014-15.
Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB)	Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd baratoi DLIB a'i gynnwys yn ei ddatganiadau ariannol. Mae'r datganiad hwn yn nodi strwythurau llywodraethu, systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg y Bwrdd Iechyd ac effeithiolrwydd y systemau hyn wrth eu gweithredu yn ystod y flwyddyn. Yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnwys nifer o faterion gweithredol a pherfformiad sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sy'n ymwneud yn bennaf ag Ysbyty Tywysoges Cymru. Ochr yn ochr ag Arolygiaeth Iechyd Cymru a Llywodraeth Cymru, rydym wedi bod yn cadw golwg agos ar y materion hyn drwy gynnal trafodaethau ag aelodau uwch o staff. Ar hyn o bryd, rydym yn parhau i wyllo'r camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i fyndi i'r afael â phryderon ac argymhellion o adroddiadau cyhoeddus diweddar.

- 28.** Yn rhan o'm gwaith archwilio ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:
- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - Deuthum i'r casgliad bod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2014, a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys; a
 - Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad bod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- 29.** Rwyf hefyd wedi cwblhau fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y Cronfeydd Elusennol. Nid oedd unrhyw faterion i'w hadrodd wrth yr Ymddiriedolwyr yn eu cyfarfod ar 13 Tachwedd 2014, a rhoddais farn ddiamedod ar y datganiadau ariannol hynny ar 2 Rhagfyr 2014.

Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheoli effeithiol er mwyn lleihau'r risg o gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol

30. Wrth ystyried yr amgylchedd rheoli mewnol, rwyf yn asesu trefniadau sy'n cynnwys rheolaethau lefel uchel dros y prif systemau cyfrifyddu a rheoli'r gyllideb, gwaith a rôl archwilio mewnol, a gwaith y Pwyllgor Archwilio sy'n cyfrannu'n weithredol at adolygu a chryfhau'r amgylchedd rheoli mewnol.
31. Canfûm fod rheolaethau yn gweithredu mor effeithiol ag y bwriadwyd, a'u bod felly'n sail ddibynadwy ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol.
32. Yn dilyn fy adolygiad o'r Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd a ddarparwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, deuthum i'r casgliad bod y Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd yn bodloni *Safonau Archwilio Mewnol 2009 ar gyfer y GIG yng Nghymru* a bod angen gwelliannau mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau mwy o gysondeb.
33. Mae'r gwaith yr wyf wedi'i gyflawni yn cefnogi barn yr archwilydd allanol ar y datganiadau ariannol. Nid yw hyn yn gyfystyr ag asesiad archwilio mewnol o dan y safonau newydd, sef Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC). O dan SAMSC (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013) mae'n ofynnol i sefydliadau gynnal asesiad allanol o waith archwilio mewnol bob pum mlynedd. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i waith archwilydd allanol er mwyn gosod dibyniaeth ar waith archwilio mewnol, neu gael sicrwydd o'r gwaith hwnnw.

Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad.

34. Ni chanfûm unrhyw wendidau sylweddol oddi mewn i systemau ariannol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nodwyd rhai meysydd llai pwysig i'w gwella yn ystod yr archwiliad, a chyflwynwyd argymhellion i'r rheolwyr er mwyn ymdrin â'r rhain.
35. Adroddodd Archwilio Mewnol am sawl gwendid o ran systemau, y mae angen i'r rheolwyr gymryd camau parhaus yn gysylltiedig â hwy. Mae cynlluniau gweithredu rheoli wedi cael eu datblygu i gryfhau'r gwendidau rheolaethol a nodwyd yn yr adroddiadau hyn, ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn craffu ar gynnydd.

Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

- 36.** Mae gofyniad statudol arnaf i'm bodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:
- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd o ran cyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at sicrhau cydbwysedd ariannol;
 - asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, gan gynnwys adolygiad o'r cynnydd a wnaed ers y llynedd o ran llywodraethu ansawdd a threfniadau ar gyfer asesu profiadau cleifion/defnyddwyr gwasanaethau;
 - gwaith penodol ar y defnydd o adnoddau ar gyfer codio clinigol, ac archwiliad dangosyddion perfformiad o ddata absenoldeb salwch. ac
 - asesu cynnydd y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn gwaith archwilio blaenorol yn gysylltiedig â gwasanaeth arlwy'o'r ysbyty ac adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain argymhellion archwilio allanol.
- 37.** Ceir crynodeb o brif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i reoli cyllidebau a monitro cynlluniau arbed yn effeithiol, ond ceir risgiau sylweddol i'r sefyllfa ariannol, ac i wasanaethau, yn sgil maint yr arbedion sydd eu hangen yn ystod y tair blynedd nesaf

Yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol, bu rheolaeth dda ar y gyllideb, rheoli ariannol da a chyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn fodd i sicrhau cydbwysedd ariannol i'r Bwrdd yn 2013-14. Fodd bynnag, cafodd gostyngiad mewn gweithgarwch dewisol effaith ar y sefyllfa ariannol, ac mae risgiau sylweddol yn parhau wrth bennu cyllidebau cytbwys yn y dyfodol

- 38.** Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi adrodd bod gan y Bwrdd Iechyd weithdrefnau da yn ystod y flwyddyn ar gyfer rheoli ariannol a rheolaeth gyllidebol. Yn ein hadolygiad eleni, canfuom fod y sefyllfa yn 2013 wedi parhau i raddau helaeth, gyda rhai gwelliannau pellach yn 2014. Unwaith eto ar gyfer 2014, cafwyd setliadau arian gwastad ar gyfer cyllid referniw cyrff y GIG yng Nghymru. Cafwyd rhywfaint o gynnydd yng nghyfanswm y cyllid cyfalaf o £36.7 miliwn yn 2012-13 i £40.7 miliwn yn 2013-14 (cyllid dewisol o £8.7 miliwn yn erbyn £7.7 miliwn yn 2012-13). Cafwyd gwelliannau hefyd wrth fonitro'r gyllideb yn y Bwrdd Iechyd drwy'r Dangosfwrdd Deiliaid Cyllideb a phe cynnau e-ddysgu.

-
- 39.** Cafodd Cynllun Adnoddau 2013-14 ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2013 ond nid oedd yn gytbwys o ran arian. Cyfanswm y bwlch mewn cyllid referniw ar gyfer 2013-14 oedd £57 miliwn. Canfuwyd £29.0 miliwn o arian yn sgil arbedion ac osgoi costau, gan adael bwlch ariannu o £28 miliwn. Rhoddwyd adroddiadau cyson i'r Bwrdd Gweithredol ac i Lywodraeth Cymru yn 2014 ynglŷn â'r bwlch ariannu hwn a oedd yn weddill. Roedd rhai gwahaniaethau yn y ffigurau a adroddwyd gan fod y sefyllfa ariannol amser real wedi newid, a gallai'r esboniadau ynglŷn â'r newidiadau hyn fod yn gliriach.
- 40.** Llwyddwyd i gyflawni canran uchel - 93 y cant neu £26 miliwn - o'r targed arbedion o £29 miliwn, sy'n cymharu'n dda â Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru, er y cafwyd llawer mwy o arbedion untro yn 2013-14 o gymharu â'r blynyddoedd cynt. Cafodd y cynlluniau arbed brys o fis saith yn 2013/14 hefyd effaith ar beth o'r gweithgarwch dewisol. Cafodd y cynlluniau hyn eu hasesu yn ôl risg. Cyflwynwyd adroddiadau clir amdanynt i'r Bwrdd, a wnaeth eu cymeradwyo.
- 41.** Cafodd y bwlch ariannu o £28 miliwn a oedd yn weddill ei gau ymhellach ar ôl i Lywodraeth Cymru ddarparu £20.5 miliwn o gyllid ychwanegol anghylchol, ac yn sgil arbedion a mesurau untro gan y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, ni chyflawnwyd yr holl dargedau ariannol yn 2013-14: bodlonwyd y terfynau adnodd referniw a chyfalaf, ond 94.5 y cant oedd y perfformiad ar gyfer Taliadau Sector Cyhoeddus yn erbyn y targed o 95 y cant.

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau lefel debyg o arbedion yn 2014-15 ag a sicrhawyd o'r blaen, ac mae'n dibynnu ar gyflawni arbedion pellach ar raddfa genedlaethol er mwyn adennill ei gostau. Ceir risgiau o hyd nad yw'r sefyllfa ariannol yn gynaliadwy nac yn gyflawnadwy yn y tymor canolig

- 42.** Mae Deddf Cyllid Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 wedi cyflwyno cyfundrefn ariannol fwy hyblyg. Mae'n rhoi dyletswydd ariannol gyfreithiol newydd ar fyrddau iechyd lleol i fantoli'r gyllideb dros dair blynedd ariannol dreigl, yn hytrach na phob blwyddyn unigol. Mae'r Ddeddf yn galluogi Byrddau Iechyd Lleol i ganolbwyntio ar benderfyniadau sy'n ymwneud â chynllunio gwasanaethau, y gweithlu a chyllid, a gweithredu dros gyfnod hirach, sy'n haws ei reoli. Mae'n symud i ffwrdd oddi wrth gyfundrefn sy'n annog penderfyniadau byrdymor o amgylch y flwyddyn ariannol. Mae'r hyblygrwydd ariannol, fodd bynnag, yn amodol ar allu cyrff y GIG i baratoi cynlluniau tymor canolig integredig digon cadarn, ac ar sicrhau cymeradwyaeth ffurfiol i'r cynlluniau hynny gan Weinidogion Cymru.
- 43.** Mae Cynllunio Busnes a Gwasanaethau yn gysylltiedig â Chynllunio Ariannol drwy broses y Cynllun Adnoddau Blynyddol, a thrwy gynhyrchu'r CTCI, er bod lle i wella hyn. Mae CTCI tair blynedd y Bwrdd Iechyd sy'n trafod 2014-15 i 2016-17, ac sy'n integreiddio cynlluniau'r gweithlu, cyllid a gwasanaethau, wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd a'r Gweinidog.
- 44.** Yn 2014-15, cafodd cyrff GIG Cymru setliadau arian gwastad, ac eithrio'r cyllid ychwanegol a gafwyd yn 2013-14. Mae'r cyllid cyfalaf wedi cynyddu i £44 miliwn ond nid yw cyllid cyfalaf dewisol wedi newid rhyw lawer.

45. Cynhyrchodd y Bwrdd lechyd CTCI ar gyfer y tair blynedd o 2014-15 i 2016-17 a gymeradwywyd gan y Gweinidog ym mis Mehefin 2014. Fodd bynnag, nid oedd y CTCI yn gytbwys o ran arian, gyda chyfanswm o £90.6 miliwn o ddiffyg dros y cyfnod o dair blynedd (Arddangosyn 2), ac nid oedd y Bwrdd lechyd wedi canfod arbedion/cyllid i lenwi'r bwloch hwn eto.

Arddangosyn 2: Bwlch ariannu'r CTCI o 2014-15 i 2016-17

(mewn £m)	2014-15	2015-16	2016-17
Costau rhagamcanol	59.5	39.5	37.5
Arbedion a nodwyd	(33.4)	(36.3)	(31.6)
Bwlch ariannu blynyddol yn ystod y flwyddyn	26.1	3.2	5.9
Diffyg sylfaenol	-	26.1	29.3
Bwlch ariannu blynyddol cronus	26.1	29.3	35.2

46. Ym mis Rhagfyr 2014, cyhoeddodd y Gweinidog y byddai cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i gyrrff y GIG, a derbyniodd y Bwrdd lechyd £26.1 miliwn o gyllid ychwanegol. Mae hyn yn bodloni gofyniad CTCI 2014/15 a bydd hefyd yn cael ei ddarparu ar sail gylchol, gan leihau'r diffyg sylfaenol i £0 yn 2015/16 ac i £3.2 miliwn yn 2016/17.
47. Mae £10 miliwn o'r £33.4 miliwn o arbedion a nodwyd yn 2014/15 yn cael eu rheoli ar raddfa genedlaethol drwy GIG Cymru. Mae'r £23.4 miliwn o arbedion a reolir yn lleol yn y CTCI ar lefel debyg i'r blynyddoedd cynt, ac mae oddeutu £22 miliwn o'r arbedion yn arbedion cylchol.
48. Y gorwariant ar gyfer y flwyddyn hyd yma, ym mis Tachwedd 2014, yw £26.058 miliwn, ond mae'r cyllid ychwanegol o £26.1 miliwn yn golygu bod y Bwrdd lechyd yn talu ei ffordd unwaith eto. Nid yw'r arbedion sydd wedi'u sicrhau yn cyrraedd y targed ar gyfer y flwyddyn hyd yma, ac mae costau gwasanaeth ychwanegol yn cael eu hachosi'n gysylltiedig â chostau asiantaeth, costau GIP uwch a chostau rhagnodi. Mae'r Bwrdd lechyd yn rhagweld y bydd arbedion ym mis Mawrth 2015 yn gwrthbwysu'n llawn y gorwariant pellach o £5.9 miliwn rhwng mis Rhagfyr 2014 a mis Chwefror 2015, ac y bydd y Bwrdd yn parhau i dalu ei ffordd ar ddiwedd y flwyddyn.
49. Er bod manylion am lithriant mewn arbedion fesul cyfarwyddiaeth/ardal yn cael eu darparu i'r Bwrdd Gweithredol a'r Bwrdd Newid er Gwell yn rheolaidd, nid yw'r rhesymau am y llithriant na'r camau a gymerwyd i unioni pethau yn cael eu hadrodd yn fanwl. Nid yw cyfarwyddwyr anweithredol ond yn derbyn yr wybodaeth hon ar lefel y Bwrdd lechyd. Fodd bynnag, mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng y Cyfarwyddwr Cyllid a'r cyfarwyddiaethau a'r ardaloedd er mwyn unioni hyn.

Mae'r Bwrdd wedi pennu gweledigaeth glir ac yn hyrwyddo diwylliant sy'n canolbwyntio ar ansawdd. Cafwyd gwelliannau i drefniadau llywodraethu ac o ran rheoli pryderon, ond mae angen gwelliannau pellach er mwyn cryfhau agweddau pwysig ar lywodraethu ansawdd, adeiladu capasiti'r sefydliad ac ymwreiddio dysgu'n llawn o fewn y sefydliad

- 50.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried fy nghanfyddiadau ynghylch sicrwydd llywodraethu a'r bwrdd, ac wedi'i chyflwyno o dan y themâu canlynol:
- cynllunio strategol;
 - strwythur trefniadol;
 - effeithiolrwydd y Bwrdd a strwythurau llywodraethu;
 - rheolaethau mewnol, gan gynnwys gwybodaeth reoli, rheoli risg a pherfformiad; a
 - chynnydd wrth ymateb i faterion llywodraethu a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd.
- 51.** Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau llywodraethu cadarn ar y cyfan, ac mae'n cydnabod yr angen i gryfhau rhai agweddau ar sicrwydd ansawdd a rheolaeth fewnol ymhellach. Mae'r Bwrdd yn parhau i hyrwyddo diwylliant agored sy'n canolbwyntio ar ansawdd ac yn arddangos dull gonest a hunanfeirniadol o adolygu ei drefniadau a'i berfformiad. Ceir tystiolaeth o waith i ddatblygu trefniadau llywodraethu ymhellach, a ffocws cynyddol ar atebolrwydd.
- 52.** Mae'r Bwrdd lechyd yn dangos ymrwymiad cryf i fynd i'r afael â phryderon ynghylch ansawdd. Cynllun heriol ar gyfer newid trefniadol yw 'Gweithredu ar ôl Andrews'. Fe'i cynhyrchwyd er mwyn ymdrin â'r argymhellion yn adroddiad *Ymddiried mewn Gofal*¹. Mae sylw sylweddol wedi cael ei roi i'r gwaith gwella cysylltiedig, gydag adnoddau'n cael eu neilltuo er mwyn arwain ffrydiau prosiect cyfatebol ac ymgysylltu sylweddol â staff, cleifion a'r cyhoedd er mwyn symud ymlaen â'r prif gamau gweithredu. Bu gwaith i ddatblygu ymddygiad a gwerthoedd y sefydliad, a meithrin diwylliant dysgu yn agwedd bwysig ar y gwaith i ddatblygu'r sefydliad eleni.
- 53.** Ceir dull blaengar o ddylunio ar gyfer y dyfodol, o ran strategaeth a newid gwasanaethau. Mae'r Bwrdd lechyd yn ymateb yn dda i heriau newydd, ac mae'r ymrwymiad i sicrhau newid a gweliant strategol cymhleth yn glir. Fodd bynnag, mae nifer a chymhlethdod y mentrau i newid a gwella gwasanaethau yn achosi heriau o ran cydgysylltu a blaenoriaethu rhaglenni a mentrau, ac fe geir risgiau'n gysylltiedig â chapasiti a chyflymder ac o ran sicrhau perchnogaeth ar newid ymhlith y staff. Mae'r Bwrdd lechyd yn deall y sefyllfa hon ac wedi ymrwymo i ymateb i'r heriau hyn, gan ddangos ymwybyddiaeth a blaenweithgarwch.

¹ Adroddiad ar Adolygiad Allanol Annibynnol o Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ym Mwrdd lechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, dan arweiniad yr Athro June Andrews. Mai 2014

54. Ceir crynodeb manylach o'm canfyddiadau isod.

Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) y Bwrdd Iechyd yn pennu gweledigaeth glir ac yn darparu sail resymol er mwyn symud y sefydliad yn ei flaen a llywio ei weithgarwch gwella

55. Mae'r Bwrdd Iechyd ymhlith pedwar yn unig o gyrff y GIG y cymeradwywyd eu CTCI gan y Gweinidog yn 2014. Wrth ddatblygu'r cynllun, darparwyd ffocws strategol drwy grŵp gorchwyl a gorffen, a bu grŵp llywio yn cyfarfod yn wythnosol i gefnogi datblygu'r CTCI. I gyflenwi'r capasiti a'r gallu cynllunio mewnol, cafwyd cyngor a chefnogaeth gan gwmni ymgynghori Finnemore. Ymgysylltwyd hefyd â'r Bwrdd a'i aelodau wrth ddatblygu'r CTCI. Aeth y cynllun drafft drwy broses graffu, ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
56. Mae'r CTCI yn pennu gweledigaeth strategol glir a rhaglen ar gyfer newid yn seiliedig ar chwe nod sefydliadol a saith o raglenni newid strategol. Mae'r rhaglen datblygu comisiynu yn arbennig o bwysig, am ei bod yn anelu i wella gwaith y Bwrdd Iechyd ym maes cynllunio a darparu gwasanaethau ar sail anghenion iechyd y boblogaeth, tystiolaeth o effeithiolrwydd clinigol, gwerth am arian a gwelliannau yn iechyd y boblogaeth. Mae'r rhaglen yn cynnwys datblygu fframwaith cynllunio a chomisiynu a sefydlu chwe bwrdd comisiynu. Mae gwaith peilot yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i brofi'r cysyniad. Mae'r CTCI a'r cynlluniau newid strategol hefyd yn cyfleu'n glir beth yw rôl ysbytai yn y dyfodol. Mae'r penderfyniad strategol i gaffael tir yn Nhreforys yn rhyddhau'r safle i ddatblygu canolfan aciwt, sy'n cyd-fynd â chyfeiriad cynllun De Cymru.
57. Ceir dealltwriaeth o'r cyllid sydd ei angen er mwyn cyflawni'r CTCI, ond ceir heriau ariannol o hyd yn gysylltiedig â gweithredu'r newidiadau a gynllunnir yn ystod y tair blynedd. Mae £26.1 miliwn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2014 yn bodloni gofyniad y CTCI ar gyfer 2014-15, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i wynebu targed arbedion sylweddol ym mhob blwyddyn yn niweddariad y CTCI, ac mae rhai gofynion cyfalaf yn ddibynnol ar sicrhau cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau amlinellol strategol
58. Mae'r Bwrdd Cyflawni Newid er Gwell yn goruchwyllo'r saith rhaglen newid strategol ac wedi bod yn gyfrifol am fonitro ac adrodd ar y CTCI. Fodd bynnag, yn ddiweddar cafwyd newidiadau ar ôl cyflwyno pwyllgorau Bwrdd diwygiedig. Bydd y Pwyllgor Strategaeth, Cynllunio a Chomisiynu (PSCCh) a'r Pwyllgor Perfformiad bellach yn goruchwyllo datblygiad, perfformiad a chyflawniad y CTCI. Y Bwrdd o hyd sydd â'r cyfrifoldeb terfynol am oruchwyllo a monitro'r CTCI. Bydd angen nodi'r fframwaith rheoli ac adrodd diwygiedig yn niweddariad y CTCI, i adlewyrchu'r strwythur Pwyllgorau newydd a'r rhyngberthynas rhwng y pwyllgorau a'r Bwrdd Cyflawni Newid er Gwell.
59. Cyflwynwyd adroddiad chwe-misol ar gynnydd i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2014. Canolbwyntiai'r adroddiad hwn ar y rhaglenni newid strategol tanategol, tra bo sicrwydd ynghylch ymrwymadau eraill strategol o fewn y CTCI yn cael eu hadrodd ar wahân i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Byddai adrodd mewn modd cyfunol ar y CTCI ac ar gyflawni newid strategol yn cefnogi sicrwydd mwy integredig gan y Bwrdd, a dylid ystyried hyn hefyd o fewn y fframwaith rheoli ac adrodd diwygiedig.

-
60. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynllunio dull da ar gyfer cwblhau drafft diwygiedig o'i CTCI erbyn 31 Ionawr 2015. Bydd y CTCI diwygiedig yn ymgorffori gwaith gwella ansawdd 'Gweithredu ar ôl Andrews' (gan na chafodd adroddiad Andrews - '*Ymddiried mewn Gofal*' ei gyhoeddi tan ar ôl llunio'r CTCI yn 2013-14). Ceir bwriad clir hefyd i ddatblygu strategaeth 10 mlynedd yn sail ar gyfer gweledigaeth strategol fwy hirdymor, ac i ganolbwyntio mwy ar y CTCI yn y dyfodol.
61. Mae sicrhau capasiti cynllunio mewnol digonol ar lefel cynllunio corfforaethol ac unedau gweithredol yn parhau i fod yn her. Mae'r Bwrdd Iechyd yn sefydlu trefniadau rheoli diwygiedig er mwyn darparu cefnogaeth well i'r swyddogaeth gynllunio ganolog, a bydd cyflwyno byrddau comisiynu yn gam cadarnhaol er mwyn hyrwyddo'r CTCI fel y prif gyfrwng ar gyfer cynllunio. Mae camau wedi cael eu cymryd er mwyn sicrhau yr ymgysylltir yn gynharach ag unedau gweithredol yn y broses gynllunio, er bod mwy i'w wneud i gryfhau cynlluniau cyflawni gweithredol, ac i integreiddio'r cynlluniau hynny â'r CTCI. Yn ogystal â hyn, mae angen cynllunio'r gweithlu yn well a chreu cysylltiadau cryfach rhwng amcanion a chanlyniadau.

Mae portffolios gweithredol wedi cael eu mireinio a'r strwythur trefniadol yn cael ei ddiwygio er mwyn rhoi cefnogaeth well i gyflawni amcanion strategol y sefydliad. Er hynny, mae diwylliant rheoli newidiol ac adeiladu capasiti gweithredol yn parhau i fod yn heriau

Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu ei strwythur trefniadol er mwyn cefnogi ei rôl fel comisiynydd a darparydd yn well, a chanolbwyntio mwy ar atebolrwydd, cyfrifoldebau ac arweinyddiaeth glinigol.

62. Mae'r strwythur trefniadol presennol, sef 13 o gyfarwyddiaethau ac ardaloedd wedi bod yn sylfaen gadarn, ac wedi cefnogi'r newidiadau i'r gwasanaethau hyd yma. Fodd bynnag, mae newidiadau'n cael eu cynnig fydd yn rhoi mwy o allu i'r sefydliad gyflawni ei rôl fel comisiynydd a hefyd fel darparydd, fydd yn galluogi'r Bwrdd i weithredu mewn modd mwy strategol, ac i ganolbwyntio mwy ar atebolrwydd, cyfrifoldebau ac arweinyddiaeth glinigol. Ceir cysylltiadau rhwng yr egwyddorion tanategol a gwaith y Bwrdd Iechyd ar werthoedd y sefydliad o ran grymuso timau rheoli gweithredol a gwella cyfathrebu, gwaith tîm, arweinyddiaeth a pherfformiad.
63. Mae'r strwythur a gynigir yn cynnwys chwe uned gyflenwi weithredol, sef: gwasanaethau sylfaenol a chymuned, gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledau dysgu, a phedair uned ysbyty. Arweinir pob uned gyflenwi gan dîm arwain sy'n cynnwys Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Cyfarwyddwr Meddygol yr Uned a Chyfarwyddwr Nyrsio'r Uned. Dylai'r model rheoli gweithredol newydd, a dreialwyd yn Ysbyty Tywysoges Cymru y llynedd, ddarparu ymgysylltiad ac arweiniad clinigol cryfach, a llinellau atebolrwydd cliriach ar gyfer gofal a phrofiadau cleifion ym mhob ysbyty. Bwriedir i is-adran gyfun ar gyfer gofal sylfaenol a gofal yn y gymuned gefnogi mwy o gysondeb rhwng rhwydweithiau cymunedol gan leihau amrywio wrth weithredu ar draws ardaloedd presennol.
64. Bu ymgysylltu â staff ynghylch y cynigion amlinellol, y rhesymeg a'r egwyddorion sydd wrth wraidd y strwythur a gynigir. Cyn gynted ag y bo'r cynigion wedi'u cymeradwyo, bydd yn bwysig sefydlu cynlluniau pontio clir er mwyn sicrhau bod y graddfeydd amser ar gyfer gweithredu yn rhesymol, a rheoli unrhyw risgiau'n gysylltiedig ag ansicrwydd tymor byr.

Bu penodi unigolion i swyddi gwag a chynnal adolygiad o bortffolios yn fodd i gryfhau'r tîm gweithredol, er bod pwysau ar gapasiti wedi bod yn amlwg drwy gydol y flwyddyn, a bod mwy i'w wneud i rymuso staff rheng flaen ac adeiladu capasiti gweithredol

65. Bu newid sylweddol o fewn y tîm gweithredol yn ystod y 12 mis diwethaf, gan gynnwys penodiadau newydd i bedair swydd cyfarwyddwr. Mae swyddi gwag wedi cael eu llenwi dros dro, er ei bod hi'n anochel fod hyn wedi cael effaith ar seilwaith corfforaethol ac ar gapasiti ar lefel uwch reoli, ac wedi achosi heriau o ran sicrhau dilyniant. Ymdopodd y tîm gweithredol yn dda â'r pwysau hyn, ac roedd ymrwymiad a gwytnwch yr aelodau uwch o staff yn amlwg. Parhawyd i ganolbwyntio a rhoi sylw i waith 'Gweithredu ar ôl Andrews', a chadw momentwm ar draws rhaglenni strategol ar gyfer newid. Gofynnwyd hefyd am fewnbwn gan arbenigwyr allanol i gefnogi meysydd allweddol o waith hanfodol yn ystod y cyfnod.
66. Yn sgil y penodiadau gweithredol newydd, mae'r tîm gweithredol bellach yn gyfan. Mae adolygiad o bortffolios gweithredol hefyd wedi cael ei gwblhau er mwyn cryfhau'r tîm ymhellach drwy egluro rolau, cylchoedd gwaith a chyfrifoldebau. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at gylchoedd gwaith llymach eu ffocws a threfniadau rheoli diwygiedig er mwyn rhoi cefnogaeth well i bortffolios allweddol. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys cylch gwaith a seilwaith cefnogol ar gyfer portffolios y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio.
67. Mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd rhagddo ag amrywiaeth o waith uchelgeisiol a chymhleth i newid gwasanaethau. Ar gyfer hyn, mae angen capasiti uwch reoli i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithlon ac yn ddiogel, ac er mwyn arwain y gwaith gwella a moderneiddio. Ar hyn o bryd, mae cyfarwyddwyr gweithredol yn arwain newid a gwelliant strategol, yn ysgogi perfformiad o fewn y sefydliad ac yn arwain o'r tu blaen ar sawl mater gweithredol. Ymddengys fod ymyrraeth fel hyn ar raddfa weithredol yn esgor ar welliannau yn y tymor byr, ond nid yw'r sefyllfa'n gynaliadwy.
68. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen adeiladu capasiti a gallu gweithredol a chynyddu sgiliau rheolwyr gweithredol mewn meysydd fel rheoli pobl yn effeithiol. Mae gweithdai wedi cael eu cynnal gyda'r Bwrdd, y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd Cyflawni Newid er Gwell er mwyn cytuno ar ffordd ymlaen o ran gwella atebolrwydd rheolaethol a chlinigol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi bod yn buddsoddi er mwyn meithrin gallu rheolwyr gweithredol a chyfarwyddwyr clinigol i arwain, ac yn bwriadu defnyddio'r gwaith ar werthoedd ac ymddygiad y sefydliad er mwyn cynorthwyo i newid y diwylliant rheoli a grymuso'r staff.

Mae'r Bwrdd yn rhoi arweiniad strategol da ac mae'r strwythurau pwyllgor diwygiedig yn cefnogi llywodraethu da. Bu gwelliannau i rai o'r trefniadau llywodraethu, ond mae rhai agweddau pwysig ar lywodraethu ansawdd i'w gwella o hyd

Mae'r Bwrdd yn dangos arweinyddiaeth strategol dda, gweinyddiaeth ac ymddygiad effeithiol ar y cyfan, ac ymrwymiad clir tuag at onestrwydd a gwella ansawdd

69. Mae gan y Bwrdd gylch busnes blynyddol, mae'n derbyn adroddiadau sicrwydd rheolaidd gan ei bwyllgorau, mae wedi asesu ei berfformiad yn erbyn safonau llywodraethu ac atebolrwydd,²ac yn arddangos arweinyddiaeth ac ymddygiad da. Mae strwythur da i'r agendâu, ond mae sicrhau bod papurau'r Bwrdd yn cael eu cyhoeddi 10 diwrnod cyn cyfarfodydd weithiau'n her, oherwydd amseroldeb papurau rheoli. Ceir cynllun dirprwyo sy'n alinio nodau strategol â chyfrifoldebau cyflenwi strwythurol, er y bydd angen adolygu'r rhain yn sgil unrhyw newidiadau i'r strwythur trefniadol a phortffolios y gweithredwyr.
70. Bu cnewyllyn sefydlog o aelodau annibynnol ar y Bwrdd sy'n craffu ac yn herio'n dda. Defnyddir sesiynau datblygu'r Bwrdd i gefnogi datblygiad yr aelodau, ystyried materion llywodraethu tyngedfennol a datblygu gwerthoedd, diwylliant ac ymddygiad y sefydliad. Mae Aelodau Annibynnol yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd datblygu hyn, ond yn croesawu cyfleoedd am hyfforddiant pellach, sydd yn ymwneud yn benodol â'u rôl a hefyd ar faterion arbennig fel codio clinigol.
71. Mae'r Bwrdd yn arddangos gonestrwydd a didwylledd wrth gynnal ei fusnes, ac ymrwymiad clir tuag at wella ansawdd. Mae papurau'r Bwrdd ar gael i'r cyhoedd, ac mae ystod yr wybodaeth sydd ym mharth y cyhoedd yn parhau i dyfu. Gyda chefnogaeth ymgynghorwyr April Strategy, mae'r Bwrdd lechyd wedi cynnal ymarfer gwrandio sylweddol er mwyn datblygu gwerthoedd ac ymddygiad y sefydliad. Bwriedir lansio gwerthoedd y sefydliad ym mis Chwefror 2015. Y gwerthoedd hynny yw: gofalu'r naill am y llall, cydweithio a gwella o hyd.

Mae strwythur, swyddogaeth ac aelodaeth pwyllgorau'r Bwrdd wedi cael eu diwygio er mwyn rhoi cefnogaeth well i'r Bwrdd wrth gyflawni ei amcanion strategol

72. Daeth strwythur newydd yn weithredol o fis Hydref 2014 ar gyfer pwyllgorau'r Bwrdd. Yn sgil diwygio'r strwythur, ceir pwyllgorau ar gyfer perfformiad, ac ar gyfer strategaeth, cynllunio a chomisiynu. Mae Pwyllgor Ymgynghorol y Cadeiryddion yn fforwm i gadeiryddion pwyllgor gael cyfarfod yn rheolaidd a chysylltu materion llywodraethu ar draws y pwyllgorau. Mae'r fforwm yn lleihau'r angen am aelodaeth ar draws pwyllgorau fel bod Aelodau Annibynnol yn gallu rhoi cymaint â phosib o'u hamser a'u sylw i bwyllgorau unigol. Mae'r egwyddor hon wedi cael ei chymhwyso i aelodaeth y Pwyllgorau Ansawdd, Diogelwch ac Archwilio lle'r oedd y cadeiryddion yn arfer bod yn aelodau ar draws y pwyllgorau.

²Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well - Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru: yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan yr holl wasanaethau iechyd ac yn cynnwys modiwl ar lywodraethu ac atebolrwydd

-
- 73.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynnal adolygiad chwe mis er mwyn asesu effeithiolrwydd y pwyllgorau newydd, gallu'r strwythur diwygiedig i ryngweithredu, ac a yw'r trefniadau ar gyfer aelodaeth y pwyllgorau mor effeithiol ag y gallant fod. Mewn egwyddor, fodd bynnag, dylai strwythur, swyddogaeth ac aelodaeth ddiwygiedig y pwyllgorau gynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei amcanion strategol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cefnogi trefniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol y sefydliadau yn effeithiol

- 74.** Mae agendâu a chyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio yn cael eu rheoli'n dda, a defnyddir cofnod o gamau gweithredu i olrhain materion. Lle bo'n briodol, atgyfeirir materion i sylw'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch er mwyn craffu arnynt a'u monitro'n barhaus. Defnyddir hunanasesiad effeithiolrwydd blynyddol i wella gweithrediad y Pwyllgor ac yn sail ar gyfer ei flaengynllun gwaith. Mae'r cynllun gwaith a ddiweddarwyd yn ddiweddar yn cynnwys adolygiad blynyddol o'r system sicrwydd, y system rheoli risg, rheolau sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (CASau). Mae hefyd yn cynnwys adolygiad o'i gylch gorchwyl, ac adolygiad o ryngberthnasoedd a rhaglenni gwaith pwyllgorau eraill.

Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn parhau i aeddfedu a gwella ei ddull o weithredu, ond mae'r rheolaeth ar yr agenda a dilyniant y rhaglen waith yn parhau i fod yn her

- 75.** Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn parhau i gryfhau a gwella ei drefniadau i graffu'n dda ar ansawdd a diogelwch. Mae'r Pwyllgor wedi cynnal hunanasesiad eleni. Cymerodd y gwaith dadansoddi yn hirach na'r disgwyl, ond bwriedir cynnwys y canlyniadau yn yr adroddiad blynyddol a gyflwynir i'r Bwrdd ar ansawdd a diogelwch. Mae cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu cynnal mewn gwahanol safleoedd ar gylchdro. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gweithredu'r her 15 cam³ wrth grwydro o amgylch ardaloedd clinigol, gan sicrhau bod y Pwyllgor yn fwy gweledol a chryfhau craffu a thrioglly drwy arsylwi. Mae adroddiadau ar y canfyddiadau a chamau gweithredu ar ôl yr ymweliadau safle hyn yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.
- 76.** Bu'r rheolaeth ar agenda'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn fwy disgybledig a strwythuredig er mwyn treulio cymaint o amser ag sy'n bosibl yn craffu. Mae'r cyfarfodydd yn parhau i fod yn hirfaith, o ystyried cymhlethdod a maint yr agenda, a'r her barhaus o daro'r cydbwysedd cywir rhwng gorfanylu ac esgeuluso. Defnyddir cofnod o gamau gweithredu i olrhain materion ac mae rhaglen waith wedi'i sefydlu, sy'n cynnwys cyflwyniad ar gylchdro gan feysydd gweithredol ar eu trefniadau llywodraethu lleol.

³ Ffordd o greu gwelliannau a deialog cadarnhaol ynghylch ansawdd gofal yw Her y 15 Cam <http://www.institute.nhs.uk/productives/15stepschallenge/15stepschallenge.html#sthash.Ixd0Oyal.dpuf>

-
77. Nodir yn y rhaglen waith yr eitemau a dderbyniwyd a'r materion a ychwanegwyd ar gyfer ymdriniaeth ddilynol, er y gellid cryfhau'r trefniadau hyn ymhellach, er enghraifft drwy amserlennu cyflwyniadau fel bo'r holl unedau gweithredol yn rhoi cyflwyniad o fewn cyfnod cytunedig. Oherwydd natur dros dro swyddi'r cyfarwyddwr nyrsio a'r cyfarwyddwr meddygol yn gynharach yn y flwyddyn, roedd hi'n fwy anodd sicrhau parhad gwaith a phresenoldeb gweithredwyr yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, ac mae papurau hwyr ac/neu geisiadau i ohirio adroddiadau wedi tarfu ar raglen waith y pwyllgor ar adegau. Mae effaith gadarnhaol penodi cyfarwyddwyr parhaol yn amlwg bellach.

Mae Aelodau Annibynnol yn herio ac yn craffu'n dda ar faterion, ond mae angen gwella adroddiadau sicrwydd, yn enwedig i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch

78. Mae'r Aelodau Annibynnol yn herio ac yn craffu'n dda ar faterion ac yn canolbwyntio ar fynd ar drywydd materion gyda'r rheolwyr ac ar geisio sicrwydd bod camau perthnasol yn cael eu cymryd yn ddigon cyflym. Ceir tystiolaeth hefyd fod Aelodau Annibynnol yn dehongli ac yn defnyddio gwybodaeth reoli i gefnogi'r craffu, gan driongli gwybodaeth o wahanol ffynonellau a'u harsylwadau eu hunain wrth grwydro o amgylch lleoliadau.
79. Cyhoeddir papurau pwyllgor cyn y cyfarfodydd, ac maent yn eglur a chryno ar y cyfan, er bod angen mewnbwn golygyddol o hyd cyn cyhoeddi rhai papurau ar ansawdd a diogelwch. Mae gwaith parhaus yn cael ei wneud i atgyfnerthu pwysigrwydd ansawdd ac amseroldeb papurau, ac i sicrhau cydymffurfio â'r fformat adrodd. Byddai datganiad mwy eglur ynghylch unrhyw risgiau neu bryderon, a ffocws cryfach ar ganlyniadau, yn rhoi mwy o hyder i Aelodau Annibynnol yn y sicrwydd a roddir. Byddai hyn hefyd o gymorth i sicrhau cydbwysedd iach o ymddiriedaeth a her rhwng Aelodau Annibynnol a swyddogion gweithredol.

Mae trefniadau llywodraethu ansawdd wedi'u sefydlu ar lefel is-bwyllgor ac ar lefel weithredol, ond ceir agweddau pwysicach y mae angen eu gwella

80. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ffocws cryf ar sicrhau bod trefniadau llywodraethu ansawdd yn effeithiol. Mae adolygiad llywodraethu ansawdd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd er mwyn asesu'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellir ei wella ar lefel yr is-bwyllgor ansawdd a diogelwch ac ar lefel weithredol. Mae angen cwblhau'r gwaith hwn yn gyflym a gweithredu yn ei sgil.
81. Mae mwy na 43 o grwpiau gweithredol yn cefnogi llywodraethu ansawdd, yr oedd y mwyafrif ohonynt yn darparu sicrwydd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch drwy Fforwm Ansawdd a Diogelwch. Diddymwyd y fforwm hwn ym mis Ionawr 2014, ac mae'r Bwrdd yn disgwyl nes bo'r adolygiad llywodraethu ansawdd wedi'i gwblhau cyn creu grŵp arall yn ei le. Bwriedir sefydlu grŵp goruchwylio newydd a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Nyrsio, gyda chynrychiolaeth gan gyfarwyddwyr clinigol, rheolwyr cyfarwyddiaethau a phenaethiaid nyrsio.

-
82. Yn y cyfamser, mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol (diogelwch cleifion) yn adolygu gwybodaeth am berfformiad ac is-grwpiau er mwyn llunio adroddiad sicrwydd i Gadeirydd y Pwyllgor. Fodd bynnag, mae angen sefydlu'r pwyllgor goruchwyllo newydd ar fyrder er mwyn sicrhau bod yr is-grwpiau niferus yn cael eu cydgysylltu'n effeithiol, a'u bod yn darparu llif o sicrwydd. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch hefyd yn derbyn rhai adroddiadau'n uniongyrchol gan yr is-grwpiau. Er bod yr adroddiadau'n amserol ar y cyfan, mae bylchau wrth adrodd, ceisiadau i ohirio adroddiadau, a diffyg rheoleidd-dra a phresenoldeb yn rhai o gyfarfodydd yr is-grwpiau yn creu heriau o ran sicrhau dilyniant adroddiadau sicrwydd.
83. Mae trefniadau llywodraethu lleol ar waith yn yr holl gyfarwyddiaethau a'r ardaloedd, er bod strwythurau llywodraethu a lefelau eu haeddfedrwydd yn amrywio rhywfaint ar draws ardaloedd gweithredol. Mae adolygiad o'r gwaelod i fyny wedi dechrau o drefniadau llywodraethu ansawdd a diogelwch mewn unedau gweithredol. Treialwyd y dull yn y gyfarwyddiaeth gyhyrsgerberbydol ac yn ardal Castell-Nedd Port Talbot, a bwriedir ei roi ar waith ar draws pob maes gweithredol, a chymhwyso'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiad i ddyluniad trefniadau llywodraethu o fewn y strwythurau trefniadol newydd.
84. Mae'n gadarnhaol bod y Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiad parhaus o effeithiolrwydd ei drefniadau, ac yn ceisio gwella o hyd. Fodd bynnag, mae angen cwblhau'r adolygiad o is-bwyllgorau, adroddiadau sicrwydd a threfniadau llywodraethu lleol ar frys. Mae angen gwneud hyn er mwyn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, a'r Bwrdd yn y pen draw, fod llywodraethu ansawdd, trefniadau goruchwyllo a llifoedd sicrwydd yn gweithredu mewn modd effeithiol drwy'r holl sefydliad.

Mae rheolaethau mewnol yn effeithiol ar y cyfan, a'r trefniadau ar gyfer rheoli gwybodaeth, risg a pherfformiad yn parhau i gael eu cryfhau

Mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati'n weithredol i ddatblygu'r dull o gyflwyno a defnyddio gwybodaeth reoli er mwyn cefnogi craffu a phenderfyniadau effeithiol

85. Ail-ddyluniodd y Bwrdd Iechyd ei fframwaith adrodd ar berfformiad yn ystod 2014, er mwyn alinio'n well ag amcanion strategol a'r CTCI, a chefnogi trefniadau craffu cryfach a mwy o eglurder o ran atebolrwydd. Mae meysydd perfformiad wedi'u dyrannu i bwyllgorau penodol, a chyfrifoldebau wedi'u halinio â phortffolios gweithredwyr arweiniol. Mae'r fformat newydd ar gyfer adroddiadau'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cynnwys crynodeb o berfformiad, cardiau adrodd am ddangosyddion, a pherfformiad cyfunol y Bwrdd Iechyd.

-
- 86.** Ar y cyfan, mae'r adroddiadau ar wybodaeth reoli wedi gwella, ac yn cefnogi craffu a phenderfynu. Mae'r data yn amserol ar y cyfan, ac yn cynnwys cymysgedd resymol o ddata ansoddol a meintiol, targedau o ansawdd gwell, cynnydd yn y defnydd o ddadansoddiadau tuedd a meincnodi, a defnydd gwell o'r system raddio CMG.⁴ Ceir ystod well o wybodaeth, ac mae'r wybodaeth yn cael ei chymhwyso'n well, gyda threfniadau cryfach ar gyfer adrodd am brofiadau cleifion, a thriogli dangosyddion ansawdd ac archwilio arsylwadol. Mae'r fformat adrodd newydd yn parhau i gael ei fireinio, ac mae'r Bwrdd yn mynd i'r afael â chyflawnder y dangosyddion ansawdd a diogelwch yn yr adroddiadau newydd. Fodd bynnag, ceir meysydd a allai gael eu gwella o hyd. Mae'r rhain yn cynnwys:
- adroddiadau eithriad i amlygu materion allweddol yn gysylltiedig â pherfformiad;
 - ystod ehangach o fesurau ar gyfer y gweithlu;
 - ffocws cryfach ar ganlyniadau a chamau gweithredu wedi'u cyfyngu gan amser; a
 - mwy o sylw i ofal sylfaenol, gofal yn y gymuned a gofal wedi'i gomisiynu.
- 87.** Bydd hefyd yn bwysig i'r Bwrdd lechyd sicrhau nad yw'r lefel casglu data gyfredol yn amharu ar y gallu i graffu'n effeithiol ar lefel pwyllgor. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn mynd i'r afael â'r risg hon, drwy gynnal adolygiadau manwl o ddangosyddion a chyflwyniadau cyfarwyddiaeth / ardal ar gylchdro. Dylai data uned weithredol wedi'i ddatgyfuno fod ar gael i gefnogi'r gwaith hwn.
- 88.** Mae'r Bwrdd lechyd wedi ymrwymo i ddatblygu gwybodaeth reoli yn barhaus, ac yn gweithio i ddatblygu amrywiaeth estynedig o fesurau canlyniad, dangosfwrdd gwasanaethau contractio gofal sylfaenol, a defnydd mwy ffurfiol o feincnodau'r GIG er mwyn taro mwy o oleuni ar y ddealltwriaeth o berfformiad. Mae metrigau ansawdd drafft hefyd wedi cael eu datblygu gan y Bwrdd lechyd ar ran GIG Cymru, a'u cyflwyno i'w cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ddatblygu proses sicrhau ansawdd data, er mwyn profi'r lefelau o hyder mewn data.

Yn sgil trefniadau newydd, ceir atebolrwydd mwy cydgysylltiedig ar gyfer gwybodaeth a'r rheolaeth ohoni

- 89.** Mewn gwaith blaenorol, canfuwyd bod rheolaeth y Bwrdd lechyd yn dda ar y cyfan o ran diogelwch gwybodaeth, cydymffurfio â chyfreithiau a safonau TG a monitro trwyddedau ar gyfer systemau a rhaglenni yn barhaus. Hyd yma yn fy ngwaith, nid wyf wedi nodi unrhyw faterion yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth na Caldicott. Fodd bynnag, yn rhan o'm dull asesu strwythuredig parhaus byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i'r meysydd hyn, y mae a wnelont â llywodraethu gwybodaeth, yn 2015.

⁴System graddio perfformiad sy'n defnyddio goleuadau traffig: Gwyrdd: ar y targed neu'n uwch na'r targed, Melyn: o fewn 5%, a Choch: 5% neu fwy oddi wrth y targed

-
- 90.** Yn ddiweddar, pennwyd y Cyfarwyddwr Meddygol fel yr unig swyddog sy'n atebol am wybodaeth a'r trefniadau i'w llywodraethu. Mae hyn yn cefnogi atebolrwydd mwy cydgysylltiedig, ac mae'r timau llywodraethu gwybodaeth a gwybodeg fu gynt ar wahân yn cael eu cyfuno o dan linellau adrodd cyfun. Bydd angen adolygu cyfansoddiad a gweithrediad y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth i roi cyfrif am y newidiadau hyn, er mwyn taro cydbwysedd priodol rhwng y ffocws strategol a'r ffocws gweithredol a gwella'r adroddiadau i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, sydd yn afreolaidd eu natur ar hyn o bryd.

Mae rheolaethau mewnol yn effeithiol ar y cyfan wrth fodloni gofynion sicrwydd cyfredol, ond mae angen gwella mwy ar rai agweddau, gan gynnwys y defnydd o archwilio clinigol

Mae 'System Sicrwydd' wedi'i chofnodi, ond mae angen diweddarau fframweithiau sicrwydd ansawdd a llywodraethu clinigol er mwyn adlewyrchu newidiadau i'r strwythur.

- 91.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno'n ffurfiol ar 'System Sicrwydd', a'i chofnodi. Diweddarwyd y system hon ym mis Tachwedd 2014, er mwyn adlewyrchu'r trefniadau diwygiedig ar gyfer Pwyllgorau'r Bwrdd. Mae adolygiad pellach wedi'i gynllunio ar gyfer 2015, er mwyn ystyried gwerthusiad o'r trefniadau newydd ar gyfer y pwyllgorau, cyflwyno fframwaith ymddygiad a gwerthoedd y sefydliad, newidiadau i drefniadau rheoli gweithredol ac unrhyw effaith ar amcanion a risgiau'r sefydliad yn sgil diweddarau'r CTCI.
- 92.** Mae'n gadarnhaol bod y Bwrdd Iechyd yn mabwysiadu ymagwedd strategol at ddatblygu ei system sicrwydd yn barhaus. Fodd bynnag, mae angen iddo bellach ddiweddarau ei fframweithiau llywodraethu clinigol a sicrwydd ansawdd i roi cyfrif am y strategaeth ansawdd ac adlewyrchu newidiadau i rolau, cyfrifoldebau a grwpiau rheoli. I fwrw ymlaen â hyn, mae angen cwblhau'r adolygiad o drefniadau llywodraethu ar fyrder.

Mae rheolaethau mewnol yn effeithiol ar y cyfan, ond ceir cyfle pellach i ddefnyddio'r DLIB, y DAB a safonau gofal iechyd i gefnogi gwelliant a dysgu parhaus

- 93.** Mae'r rheolaethau mewnol yn gadarn ar y cyfan, ac yn cynnwys rhaglen wedi'i chynllunio a'i chyflawni'n dda o waith archwilio mewnol a chyfalaf, a gwasanaeth atal twyll effeithiol. Ceir trefniadau ar waith i fonitro cydymffurfio â rheolau sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, ac i hyrwyddo gonestrwydd a phriodolrwydd wrth weinyddu busnes.
- 94.** Yr oedd Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) a Datganiad Ansawdd Blynyddol (DAB) y Bwrdd Iechyd wedi'u tanategu gan ddatganiadau sicrwydd cyfarwyddiaeth/ardal, ac yn cael eu hadrodd yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae trefniadau craffu ar waith a gwaith Archwilio Mewnol yn cael ei ddefnyddio i gadarnhau cywirdeb ffeithiol. Fodd bynnag, ceir cyfle pellach i ddefnyddio'r DLIB a'r DAB i ddarparu gwell cefnogaeth ar gyfer dysgu a gwella parhaus, drwy gryfhau datganiadau sicrwydd gweithredol a symud tuag at ddull llai blynyddol.

-
- 95.** Cyflwynwyd DAB 2014 mewn modd gonest ac mewn modd a oedd yn hygyrch i'r cyhoedd, gan ddefnyddio testun byrrach a graffeg i gyfleu gwybodaeth er mwyn rhwyddhau'r darllen. Mae panel golygyddol eisoes wedi cael ei sefydlu i wella adroddiadau a gyflwynir gerbron y cyhoedd y flwyddyn nesaf, er y bu amser yn pwysu wrth ddrafftio dogfennau'n derfynol yn 2014. Byddai dechrau llunio DAB 2015 ynghynt, mwy o eglurder ynghylch cyfrifoldebau a chydgyssylltu'n well â'r gwaith i ddrafftio'r Adroddiad Blynyddol yn fodd i wella'r broses yn 2015.
- 96.** Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn defnyddio ffynonellau eraill o sicrwydd yn rhan o'r mesurau rheoli mewnol. Mae'r rhain yn cynnwys yr Archwiliad Hanfodion Gofal⁵ a Safonau Gwasanaethau Iechyd Cymru⁶. Ers sawl blwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio panel craffu i adolygu a herio hunanasesiadau yn erbyn y safonau gofal iechyd. Bu'r trefniant hwn yn llwyddiannus am gyfnod, ond amharwyd ar effeithiolrwydd y panel yn 2014, yn sgil canslo cyfarfodydd, cyflwyno papurau'n hwyr ac ansawdd cyflwyniadau. Mae'n bosibl bod oedi wrth benodi i'r Weithrediaeth a newidiadau i'r portffolios wedi cael effaith ar hyn, ond bydd angen adfywio'r broses er mwyn sicrhau craffu effeithiol a chefnogi'r defnydd o'r safonau fel offeryn i hyrwyddo ansawdd y sefydliad yn 2015.

Mae newidiadau'n cael eu cyflwyno i gryfhau cyfraniad archwilio clinigol at sicrwydd y Bwrdd, er nad yw'n chwarae rhan lawn hyd yma.

- 97.** Mae archwilio clinigol yn bwysig er mwyn cefnogi gwelliant clinigol a sicrwydd y Bwrdd, ond fel yr adroddais y llynedd, nid yw'n chwarae rhan gref eto. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod hyn ac yn gwneud trefniadau diwygiedig i gryfhau cyfraniad archwilio clinigol. Mae cynigion a gymeradwywyd yn ddiweddar yn cynnwys ymagwedd lymach wrth flaenoriaethu gweithgarwch archwilio clinigol, a chryfhau'r trefniadau ar gyfer craffu ar y cynllun. Cynllun Canlyniadau ac Adolygu Archwiliad Clinigol Cenedlaethol GIG Cymru fydd asgwrn cefn cynllun archwilio clinigol y Bwrdd Iechyd o fis Ebrill 2015, tra bydd archwiliadau a nodwyd yn sgil adborth gan gleifion, rheoli risg, adolygiadau allanol a newidiadau i wasanaethau yn creu cysylltiadau â blaenoriaethau strategol.
- 98.** Bydd angen trefniadau llymach wrth roi caniatâd ar gyfer gwaith archwilio lleol ad hoc, gan fod y prosiectau hyn yn dal i gael eu cychwyn yn lle gweithgarwch cyfarwyddiaeth/ardal cynlluniedig. Ar hyn o bryd, mae hyn yn golygu nad yw'r galw am yr adnodd archwilio canolog yn cael ei gydgyssylltu, a pherfformiad gwael o ran cwblhau cynlluniau archwilio. Cafwyd presenoldeb gwael yn y Grŵp Ymarfer a Monitro Effeithiol, ac mae meithrin ymgysylltu clinigol a pherchnogaeth ar lefel weithredol yn parhau i fod yn her allweddol. Bwriedir adrodd ar gyfranogiad a chanlyniadau prosiectau drwy'r Grŵp Llywio Canlyniadau Clinigol, gan roi sicrwydd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ac, yn ei dro, i'r Bwrdd.

⁵ Menter gan Lywodraeth Cymru yw Hanfodion Gofal. Ei nod yw gwella ansawdd gofal i oedolion, gan fesur hynny yn erbyn deuddeg o ddangosyddion sy'n seiliedig ar Agweddau Sylfaenol Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

⁶ Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well - Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru: yn pennu'r gofynion o ran yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad

Mae trefniadau wedi'u sefydlu i ymdrin ag argymhellion archwilio a monitro'u gweithrediad, ond ceir rhai agweddau, gan gynnwys cynlluniau gweithredu, y gellir eu gwella.

- 99.** Yn rhan o'm hymrwymiad i gynorthwyo i sicrhau a dangos gwelliant drwy waith archwilio, rwyf wedi adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd i ymateb i argymhellion a wnaed yn rhan o'n rhaglen leol, a'm rhaglen orfodol genedlaethol o waith archwilio yn ystod 2012 - 2014. Canfûm fod y Bwrdd Iechyd wedi hen sefydlu trefniadau i ystyried fy adroddiadau a monitro'r broses o weithredu fy argymhellion.
- 100.** Bydd y Pwyllgor Archwilio yn derbyn holl adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ac ymatebion y rheolwyr, a bydd gweithredwr arweiniol pob archwiliad yn gyfrifol am ddatblygu a chyflwyno ymateb y rheolwyr gerbron y Pwyllgor. Fodd bynnag, ceir cyfle i wella amseroldeb cynlluniau gweithredu a'u cysondeb o ran lefel y manylder a'r eglurder ynghylch cyfrifoldebau, graddfeydd amser a chanlyniadau arfaethedig.
- 101.** Mae'r dull ar gyfer olrhain argymhellion archwilio (mewnol ac allanol) wedi'i hen sefydlu. Adroddir ar gofnod olrhain, a lunnir o'r wybodaeth a gesglir gan y rheolwyr, yn holl gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio. Nodir ar y cofnod hwnnw nifer yr argymhellion sydd wedi'u cwblhau, y nifer sydd yn parhau a'r nifer sydd yn hwyr. Defnyddir nodiadau atodol i amlygu eithriadau ac mae'r Pwyllgor yn defnyddio'r wybodaeth olrhain i herio cyflymder ac effeithiolrwydd ymateb y rheolwyr. Mae'r cofnod yn cefnogi'r broses o fonitro a chraffu ar gynnydd yn erbyn cyfanswm yr argymhellion. Fodd bynnag, byddai crynodeb manwl o gynnydd ar bob cam gweithredu fesul cyfnod gan y rheolwyr yn atgyfnerthu'r trefniadau presennol ar gyfer craffu a sicrwydd.
- 102.** Bu llai o eglurder ynghylch y broses oruchwylio ar gyfer canfyddiadau ac argymhellion cyrff rheoleiddio ac arolygu eraill, ond datblygwyd cofnod o ymweliadau rheoleiddio ac arolygu yn ystod 2014 gan y grŵp Dysgu a Sicrwydd. Dyma ddatblygiad cadarnhaol, ond cymharol ddiweddar, ac mae'r trefniadau ar gyfer adrodd wrth y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch am weithgarwch arolygu rheoleiddiol allanol yn dal i gael eu sefydlu.

Mae'r Bwrdd wedi parhau i gryfhau ei drefniadau rheoli risg, gan greu sail resymol i ddeall ac ymateb i risgiau allweddol i'r sefydliad.

- 103.** Mae strategaeth rheoli risg yn nodi'r awydd corfforaethol am risg ac yn rhoi arweiniad ar asesu risg. Mae fformat diwygiedig y gofrestr risg gorfforaethol yn alinio risgiau ag amcanion strategol ac yn nodi'r cyd-destun, y rheolaethau a'r camau sy'n cael eu cymryd, ynghyd â'r arweinydd gweithredu penodedig a'r pwyllgor sy'n gyfrifol am fonitro'r risg.
- 104.** Mae'r grŵp dysgu a sicrwydd yn goruchwylio prosesau rheoli risg, ac yn darparu fforwm ar gyfer adolygu risgiau gweithredol a hyrwyddo cysondeb wrth sgorio a rheoli risg. Mae pob risg a chanddi sgôr o 20 neu fwy yn cael ei chynnwys ar y gofrestr risg gorfforaethol, ac yn cael ei thrafod mewn cyfarfodydd adolygu perfformiad misol. Mae'r cofrestrau risg corfforaethol a lleol wedi cael eu diweddarau er mwyn paratoi i drosglwyddo i system we newydd Datix⁷ ym mis Rhagfyr 2014, ac mae rhaglen hyfforddi rheoli risg tair blynedd o hyd ar waith.

⁷ System feddalwedd seiliedig ar y we yw Datix sy'n cefnogi diogelwch cleifion, rheoli risg, dadansoddi ac adrodd am ddiwyddiadau a digwyddiadau niweidiol mewn modd integredig.

-
- 105.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gryfhau ei drefniadau rheoli risg, er ei fod yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud. Dylai camau gweithredu yn y dyfodol gynnwys asesu'r awydd am risg ac effeithiolrwydd camau i leihau risg, gan nad yw sgoriau'r risgiau ar y gofrestr yn newid rhyw lawer ar ôl y camau gweithredu.

Mae adolygiadau perfformiad cyfarwyddiaeth/ardal misol wedi'u sefydlu, a phroses ddwysáu wedi'i nodi yn y 'System Sicrwydd' ond mae'r perfformiad o ran amseroedd aros yn her allweddol.

- 106.** Nodir fframwaith rheoli perfformiad y Bwrdd Iechyd yn y 'System Sicrwydd'. Mae cyfarwyddiaethau ac ardaloedd yn cytuno â'r Prif Swyddog Gweithredu ar eu targedau cyflawni blynyddol yn rhan o'r broses gynllunio, yn seiliedig ar nodau strategol y sefydliad a phroffiliau cyflawni'r CTCl.
- 107.** Cynhelir adolygiadau perfformiad misol gyda phob cyfarwyddiaeth ardal. Cymhwysir sgôr CMG gyffredinol yn seiliedig ar berfformiad yn erbyn targedau Haen 1, chwe sbardun ansawdd a diogelwch a mesurau proses cytunedig, fel carreg filltir ar gyfer cyflawni newid cytunedig i wasanaeth. Mae'r sgôr yn adlewyrchu perfformiad cyfredol, yn awgrymu cyfeiriad y Bwrdd, ac yn goleuo penderfyniadau dwysáu. Mae proses i asesu cynnydd yn erbyn amcanion a chynlluniau cyflawni blynyddol hefyd wedi'i sefydlu drwy gyfarfodydd adolygu canol a diwedd blwyddyn.
- 108.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio datblygu ffocws cryfach ar atebolrwydd drwy ddiwygio strwythurau rheoli. Mae modelau ymreolaeth haeddiannol i'r timau gwasanaeth yn cael eu hystyried, ac mae peilot rheoli llinell gwasanaeth⁸ yn y gwasanaethau rhanbarthol a chardiothorasig wedi'i gynllunio. Fodd bynnag, mae perfformiad amseroedd aros yn parhau i fod yn her allweddol ym mherfformiad y Bwrdd Iechyd o ran targed pedair awr yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, y perfformiad cyffredinol o ran amseroedd aros rhwng atgyfeiriad a thriniaeth, ac amseroedd aros canser. Yn ogystal â'r effaith ar brofiad y claf, mae hyn yn peryglu'r gallu i gyflawni'r CTCl. Mae rhaglen adfer wedi cael ei rhoi ar waith.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad i wella ansawdd a phrofiad y claf, a bu cynnydd sylweddol wrth gasglu adborth gan gleifion a gwella'r broses o reoli pryderon. Fodd bynnag, mae angen datblygu rhai agweddau pwysig ar y trefniadau i graffu ar ansawdd, ac mae mwy o waith i'w wneud er mwyn ymwreiddio dysgu o fewn y sefydliad

- 109.** Yn 2013, canfûm fod y Bwrdd Iechyd wedi ymroi i feithrin diwylliant cadarnhaol o ddysgu a gwrando, ond roedd problemau'n codi wrth geisio ymateb i gwynion yn brydlon, ac roedd angen dull systematig a chydgyssylltiedig i ymwreiddio dysgu'r sefydliad. Yn ystod 2014, gwnaed cynnydd sylweddol o ran casglu gwybodaeth am brofiadau cleifion a rheoli pryderon. Mae rhaglen gwella profiadau cleifion wedi cael ei sefydlu, ac adroddir bod y rhaglen honno'n unol â'r targed i wireddu ei phrif ganlyniadau cyflawnadwy erbyn mis Mawrth 2015. Dyma'r prif gyflawniadau hyd yma:

⁸Mae rheoli llinell gwasanaeth yn cyfuno technegau rheoli a chynllunio busnes er mwyn gwella darpariaeth gofal iechyd. <https://www.gov.uk/government/collections/service-line-management-an-approach-to-hospital-managment>

-
- ailgynllunio'r tîm profiadau cleifion (TPC) a chyllid hirdymor i adeiladu capasiti'r tîm.
 - ehangu gwaith arolwg ar brofiadau cleifion a'r buddsoddiad yn hynny i raddau sylweddol;
 - cyflwyno system we Datix⁹ er mwyn adrodd, dadansoddi a thriogli gwybodaeth yn well; a
 - datblygu trefniadau i annog staff a chleifion i godi pryderon a'i gwneud yn haws iddynt wneud hynny.
- 110.** Mae rhaglen dreigl o adolygiadau cyfarwyddiaeth/ardal misol yn gwella amseroldeb, ansawdd a chysondeb ymatebion i gwynion, ac fe gafwyd cynnydd o ran lleihau'r cwynion a oedd wedi ôl-gronni. Mae staff clinigol wedi cael eu penodi i'r TPC er mwyn cynorthwyo i ddatrys a rheoli pryderon yn fuan. Mae hyfforddiant wedi cael ei gynnal i wella ansawdd a chyflymder ymchwiliadau ar y cyd â'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion, ac mae tîm ymchwiliadau difrifol wedi cael ei sefydlu. Cafwyd gwelliant hefyd i drefniadau'r Bwrdd lechyd ar gyfer rheoli ac ymateb i achosion yr Ombwdsmon, drwy benodi nyrs arweiniol.
- 111.** Mae'r TPC wedi bod yn hollbwysig er mwyn ysgogi newidiadau i'r broses a'r perfformiad rheoli cwynion hyd yma, ond mae angen ymwreiddio'r gwelliannau hyn yn weithredol er mwyn i'r Bwrdd lechyd gynnal y gwelliant. Yn y gorffennol, y timau llywodraethu lleol fu'n gyfrifol am brofiadau cleifion yn y gorffennol, ac mae angen ymgysylltiad cryfach gan gyfarwyddwyr clinigol, rheolwyr cyffredinol a phenaethiaid nyrsio. Mae digwyddiadau Newid er Gwell wedi cael eu defnyddio i atgyfnerthu'r atebolrwydd am brofiadau cleifion a rheoli pryderon.
- 112.** Mae'r Bwrdd lechyd wedi mynd ati'n rhagweithiol i ehangu'r dulliau o gael adborth gan gleifion, ac i gynyddu'r adborth a geir. Yn y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Hydref 2014, casglwyd mwy na 14,000 o ymatebion drwy holiaduron profiadau cleifion a thrwy'r prawf ffrindiau a pherthnasau¹⁰, gyda chynnydd yn y defnydd o dechnoleg ar-lein a symudol, ochr yn ochr ag arolygon traddodiadol. Prynwyd meddalwedd arolygon SNAP 11¹¹ i gynorthwyo i reoli a dadansoddi arolygon wrth i'r Bwrdd lechyd barhau i ehangu'r broses o gasglu adborth gan gleifion ar draws ei wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio mesurau canlyniad a adroddir gan gleifion, ac mae peilot ar gyfer hyn wedi'i gynllunio o fewn y gwasanaeth Trawma ac Orthopedig.

⁹ Daeth modiwlau gwe Datix ar gyfer profiadau cleifion, cwynion, risg a hawliadau yn weithredol ym mis Rhagfyr 2014. Bydd yr elfen adrodd am ddigwyddiadau yn dod yn weithredol yn 2015 ar ôl integreiddio Datix a system cofnodion electronig y staff.

¹⁰ The mae'r 'prawf' yn gofyn i gleifion a fyddent yn argymhell yr ysbty/ward/gwasanaeth i'w ffrindiau/perthnasau.

¹¹ Meddalwedd a ddefnyddir i greu, rheoli a dadansoddi arolygon ar-lein, papur a symudol yw SNAP 11.

-
- 113.** Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cymryd rhan ym mheilot Llywodraeth Cymru o iWantGreatCare¹² a derbyniodd 991 o ymatebion o ddwy ward beilot o fewn y ddau fis cyntaf. Efallai y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd fyfyrion ar ystod ac aliniad y dulliau a ddefnyddir i gasglu profiadau cleifion ar ôl gwerthuso'r peilot, yn enwedig os bydd GIG Cymru yn mabwysiadu iWantGreatCare.
- 114.** Bu gwelliant hefyd wrth ddadansoddi ac adrodd mesurau profiadau cleifion yn ganolog (adborth, cwynion a digwyddiadau), ond mae angen triongli'r mesurau hyn yn well er mwyn cael safbwynt ehangach o brofiadau cleifion ar draws y sefydliad. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod hyn ac yn buddsoddi mewn systemau gwybodaeth er mwyn gwella dadansoddiadau thematig ymhellach, a chefnogi fframwaith mwy systematig ar gyfer dysgu gwersi. Bydd cyflwyno system we Datix yn creu system gyfun ar gyfer cofnodi, dadansoddi a thriongli gwybodaeth am brofiadau cleifion, cwynion, risg, digwyddiadau a hawliadau. Bydd hyn hefyd yn cefnogi adborth gwell i'r staff ynglŷn â'r pryderon a'r digwyddiadau y maent wedi adrodd amdanynt. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydweithio â Phrifysgol Abertawe i gyfuno adroddiadau Datix a SNAP er mwyn creu dangosfwrdd gyfun ar gyfer profiadau cleifion, er nad yw'r gwaith hwn wedi'i gwblhau eto.
- 115.** Er bod ymrwymiad y Bwrdd tuag at ddysgu a gwelliant sefydliadol i'w weld yn amlwg iawn, nid yw'r trefniadau'n ddigon systematig nac wedi'u hymwreiddio'n llwyr eto. Bellach, mae'r grŵp Dysgu a Sicrwydd a ffurfiwyd yn ddiweddar yn darparu fforwm er mwyn rhannu dysgu ar draws y sefydliad, ac fe geir enghreifftiau o ddysgu'n lleol. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau ar gyfer dysgu a gwerthuso effeithiolrwydd y camau a gymerwyd yn ddigon eglur, ac maent yn dal i fod yn anghyson. Mae angen datblygu ac ymwreiddio ymagweddau mwy systematig.
- 116.** Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn ymroddedig i feithrin diwylliant o onestrwydd a pharodrwydd i wrando ar staff a phryderon cleifion, gydag arweinyddiaeth weithredol weladwy a throeon o amgylch wardiau er mwyn sicrhau diogelwch cleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cychwyn yr ymgyrch 'Rho wybod' er mwyn annog cleifion a staff i rannu pryder ynghylch safonau gofal neu ymarfer, a rhwyddhau'r broses honno, gan hybu diwylliant fydd o gymorth i ganfod a datrys pryderon ynghynt.
- 117.** Mae'r ymgyrch, sydd wedi derbyn cyhoeddusrwydd eang ar draws y sefydliad ac ar wefan y Bwrdd Iechyd, yn pwysleisio'r syniad bod gofal rhagorol o bwys i bawb. Anogir cleifion i hysbysu aelod o staff ar unwaith os ydynt yn pryderu ynghylch rhywbeth, fel bo modd cymryd camau ar unwaith. Fodd bynnag, mae prosesau adrodd cyfrinachol hefyd ar waith drwy e-bost, neges-destun neu alwad ffôn. Mae adroddiadau am bryderon a godir drwy'r mecanweithiau hyn bellach ar waith, gan olygu bod modd casglu'r materion a godir a chymryd camau er mwyn goleuo dysgu ehangach.

¹²Mae iWantGreatCare, cwmni annibynnol, yn casglu adborth gan gleifion/gofalwyr/perthnasoledd ynghylch gwasanaethau'r GIG.

-
- 118.** Mae nifer yr aelodau staff sy'n codi pryderon o dan bolisi (chwythu'r chwiban) ffurfiol Codi Pryderon Cymru yn parhau i fod yn isel, ond mae'r staff yn gwneud defnydd cynyddol o'r sianelau 'Rho wybod' i godi materion. Mae'r cynnydd mewn adroddiadau anffurfiol yn gadarnhaol, ond bydd yn bwysig i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod staff yn teimlo'n ddigon hyderus i godi ac ymdrin â materion drwy reolwyr llinell gweithredol, yn hytrach na dibynnu ar sianelau adrodd dienw.
- 119.** Mae'r Bwrdd wedi parhau i ddangos ffocws ar lywodraethu ansawdd, i hyrwyddo diwylliant ansawdd a diogelwch, a cheisio gwella ansawdd craffu a sicrwydd. Cymeradwywyd Strategaeth Ansawdd gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2015, ac mae cynllun cyflawni a blaenoriaethau ategol ar gyfer 2015-16 yn cael eu hysgrifennu ar hyn o bryd. Yn ogystal â hyn, bwriedir cyhoeddi trefniadau sicrwydd ansawdd diwygiedig a chynllun sicrwydd blynyddol ar gyfer 2015/16 ym mis Ionawr 2015. Mae'r adolygiad llywodraethu ansawdd a ddisgrifir ym mharagraff 79 yn dangos ymwybyddiaeth ac ymrwymiad y Bwrdd i sicrhau bod trefniadau llywodraethu ansawdd a chraffu yn effeithiol, ond mae angen cymryd camau ynghynt i ymdrin â rhai materion pwysig. Cyfeiriwyd at y rhain yn flaenorol yn yr adroddiad, ond maent yn cynnwys:
- symleiddio strwythur cymhleth yr is-bwyllgorau ansawdd a diogelwch;
 - cynnal cyfarfodydd is-bwyllgor yn fwy rheolaidd, a sicrhau y mynychir y cyfarfodydd hynny'n fwy rheolaidd;
 - gwella ansawdd a chyflawnder adroddiadau sicrwydd; a
 - lleihau amrywioldeb prosesau, strwythurau ac aeddfedrwydd llywodraethu ansawdd lleol.

Er i mi ganfod enghreifftiau o arfer da yn rhan o'm gwaith archwilio perfformiad, ceir cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn sawl maes allweddol

Mae'r Bwrdd lechyd wedi pennu agenda uchelgeisiol ar gyfer newid, yn dangos ymgysylltiad cryf â'r gymuned ac yn buddsoddi mewn technolegau cefnogol. Ond ceir risgiau'n gysylltiedig ag ystadau a chyfarpar, a heriau o ran gwella gwaith cynllunio'r gweithlu ac o ran sicrhau bod gan reolwyr y sgiliau i arwain

- 120.** Yn rhan o'm gwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, adolygwyd y modd y rheolir agweddau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Dengys y gwaith hwn fod y Bwrdd lechyd yn hyrwyddo diwylliant gwella, wedi ymroi i ymgysylltu â'r gymuned, ac yn buddsoddi yn y defnydd o systemau a thechnoleg gwybodaeth. Ond ceir heriau o ran y gweithlu a'r capasiti i newid, a risgiau'n gysylltiedig ag ystadau a chyfarpar. Ceir crynodeb o'r prif ganfyddiadau yn Arddangosyn 3.

Arddangosyn 3: Asesiad Strwythuredig 2014: ffactorau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau

Mater	Crynodeb o'r canfyddiadau
Rheoli newid	<p>Mae rhaglenni newid strategol yn tanategu'r CTCI, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn hybu diwylliant o welliant cadarnhaol, ond mae sicrhau bod y cysylltiadau rhwng rhaglenni yn eglur ac wedi'u cydgyssylltu, a sicrhau ymgysylltiad gweithredol yn her.</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae gan y Bwrdd Iechyd ymagwedd uchelgeisiol a blaengar er mwyn gwireddu ei weledigaeth a'i amcanion strategol. Mae pob un o'r saith o raglenni newid strategol sy'n tanategu'r CTCI yn cynnwys nifer o is-raglenni a phrosiectau, ac yn cynrychioli newid cymhleth a sylweddol.• Ceir ffocws ar hybu newid diwylliant drwy waith ar werthoedd ac ymddygiad y sefydliad, er mwyn dylanwadu ar y diwylliant gwella a hyrwyddo Cyllid fel ffactor sy'n galluogi newid. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi buddsoddi i gefnogi'r broses o gyflawni newid, er enghraifft, drwy sefydlu swyddfa'r rhaglen newid, mabwysiadu methodoleg Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus, a chyfadran gwella newydd.• Fodd bynnag, mae nifer a chymhlethdod y rhaglenni newid, y ffrydiau a'r trefniadau gwaith yn creu heriau a risgiau posib o ran:<ul style="list-style-type: none">– cydgyssylltu a blaenoriaethu;– rheoli'r rhyngwyneb rhwng y swyddfa raglenni a'r tîm gwella gwasanaethau (sydd wedi'u cynnwys yng nghylchoedd gwaith ar wahân Cyllid a'r Prif Swyddog Gweithredol);– sicrhau a chynnal perchnogaeth ac ymgysylltiad gweithredol â newid;– adroddiadau sicrwydd integredig ar draws rhaglenni newid strategol, ac yn erbyn cyflawniad y CTCI; a– risgiau o ran capasiti, wrth reoli newid ac yn ystod y cyfnod pontio ar gyfer newid strategol.• Ceir cydberthynas gref rhwng y CTCI, y saith rhaglen danategol ar gyfer newid strategol, a 'Gweithredu ar ôl Andrews', ond mae sicrhau dealltwriaeth o'r rhyng-gysylltiadau, yr atebolrwydd, ac o gyflawni'r 'ffrydiau' perthnasol ar draws y sefydliad hefyd yn her. Roedd yn bwysig canolbwyntio ar wahân ar waith 'Gweithredu ar ôl Andrews' yn ystod 2014, er bod yr egwyddorion bellach yn cael eu cynnwys yn y CTCI wedi'i ddiweddarau, a chamau parhaus yn cael eu prif-ffrydio i fusnes gweithredol.

Mater	Crynodeb o'r canfyddiadau
Y Gweithlu	<p>Mae camau'n cael eu cymryd i ymdrin â risgiau i'r gweithlu, ond mae gwella gwaith cynllunio'r gweithlu a sicrhau bod gan reolwyr y gallu i arwain yn heriau allweddol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae cynlluniau blynyddol wedi cael eu datblygu ar gyfer y gweithlu, ac mae rheolwyr AD yn adolygu hyn ar hyn o bryd, yn nghyd-destun diweddarau'r CTCl. Er hynny, mae angen gwella gwaith cynllunio'r gweithlu er mwyn creu sail effeithiol ar gyfer y CTCl, ac mae angen gwella gwaith i ddatblygu'r gweithlu a phroffilio sgiliau, a chynlluniau pontio i gefnogi'r newid oddi wrth safleoedd aciwt tua'r gymuned. • Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu nifer o heriau i'r gweithlu, gan gynnwys recriwtio i ardaloedd lle ceir prinder staff ar raddfa genedlaethol a dibyniaeth ar staff banc ac asiantaeth. Mae camau gweithredu'n cael eu cymryd er mwyn ymdrin â'r risgiau i'r gweithlu, gan gynnwys gwaith gorchwyl a gorffen ym maes recriwtio, proffilio'r gweithlu nysio, a monitro salwch. • Cafwyd buddsoddiad mewn amrywiaeth o hyfforddiant ar gyfer newid/gwella, ee, hyfforddiant yn rhan o waith Gweithredu ar ôl Andrews, er ei bod hi'n ymddangos bod y capasiti a'r adnoddau sydd eu hangen i fodloni anghenion y dyfodol yn brin. • Nid oes digon o wybodaeth am y gweithlu'n cael ei darparu i'r rheolwyr nac i'r swyddogaeth graffu. Dim ond amrywiaeth gyfyngedig o fesurau yr adroddwyd amdanynt yn gysylltiedig â'r gweithlu; mae gwybodaeth gywir am arfarnu perfformiad a chwblhau hyfforddiant hefyd yn brin, nes bo'r broses o fewnbynnu data i'r Cofnod Staff Electronig (CSE) wedi'i chwblhau. Fodd bynnag, mae gwaith i wireddu manteision y CSE bellach ar y gweill. • Mae datblygu sgiliau trin pobl a pharatoi rheolwyr gweithredol yn well i arwain newid cymhleth yn parhau i fod yn heriau allweddol.
Ystadau ac asedau	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn blaenoriaethu cyllid cyfalaf sydd ar gael, ac yn rheoli nifer o risgiau sylweddol o ran ystadau a chyfarpar.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae datblygiadau cyfalaf graddfa fawr, gan gynnwys ailddatblygu ysbyty Treforys a moderneiddio gwasanaethau iechyd meddwl yn Abertawe, yn mynd rhagddynt, ac mae'r cynllun strategol i gaffael tir yn 'rhyddhau' safle Treforys i'w ddatblygu ymhellach. • Mae dyraniad dewisol 2014/15 wedi cael ei ddefnyddio i brynu cyfarpar TG a meddygol. Mae cronfa ddata yn cael ei datblygu i gefnogi cofrestr ar gyfer y rhaglen barhaus i newid cyfarpar. • Mae gwelliannau amgylcheddol yn cael eu gweithredu yn rhan o'r gwaith 'Gweithredu ar ôl Andrews'. Mae £200,000 o gyllid cyfalaf wedi cael ei ddarparu i wella'r amgylchedd cyffredinol, ee, arwyddion, ac mae pecyn cymorth y King's Fund yn cael ei ddefnyddio i arfarnu amgylcheddau gofal. Mae rhaglen yn cael ei datblygu i ailwampio wardiau. • Ceir risgiau a heriau sylweddol i ystadau ac offer: <ul style="list-style-type: none"> – Ôl-groniad ystadau £60 miliwn: yn bennaf mewn mannau lle ceir gwaith datblygu cyfalaf cyfredol (ystadau Cefn Coed a Threforys); – mae prinder arian yn cyfyngu ar y gallu i brynu cyfarpar allweddol newydd yn lle hen gyfarpar, ac i uwchraddio'r seilwaith, gan gynnwys y rhwydwaith a systemau TG; – yr angen i chwilio am ddatrysiadau ariannu arloesol ar gyfer yr ystâd gofal sylfaenol; – mae'r rhaglen ailwampio wardiau yn ddibynnol ar argaeledd wardiau dros dro; ac – mae cyfleusterau ynysu yn brin.

Mater	Crynodeb o'r canfyddiadau
Ymgysylltu a phartneriaethau	<p>Gan adeiladu ar yr arferion da a ganfûm mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dangos ymrwymiad sylweddol i ymgysylltu mewn modd rhagweithiol â chleifion, staff a rhanddeiliaid, ac i barhau i adeiladu gwaith partneriaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bu ymgysylltu sylweddol â staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd er mwyn datblygu gwerthoedd y sefydliad a safonau gofal ar gyfer cleifion oedrannus. Cymerodd dros 6000 o staff, cleifion gofawyr, teuluoedd a grwpiau trydydd sector ran mewn digwyddiadau gwrandio, a gofynnwyd am sylwadau ynglŷn â'r strategaeth ansawdd drafft. • Cafwyd cyfathrebu rhagweithiol ynghylch cynnydd 'Gweithredu ar ôl Andrews', drwy ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys gwefan 'Gweithredu ar ôl Andrews', cylchlythyr i'r gymuned iechyd a rhanddeiliaid, a chyfarfodydd diweddar ag Aelodau Cynulliad Lleol. • Rhoddwyd y cyfrifoldeb am waith partneriaeth i un cyfarwyddwr gweithredol, gyda chefnogaeth swyddogion arweiniol ar gyfer pob partneriaeth. • Dangosir ymrwymiad parhaus tuag at waith partneriaeth drwy: <ul style="list-style-type: none"> – raglen Bae'r Gorllewin; – gweithio gyda phartneriaid awdurdod lleol i sicrhau cronfa gofal canolraddol; – cydweithrediad newydd â sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector er mwyn sefydlu 'Canolfan Cymorth a Mwy': canolfan driniaeth ar gyfer alcohol yng nghanol y ddinas; a – chynyddu gwaith a wneir mewn partneriaeth â phrifysgolion.
Defnyddio technoleg	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i wneud defnydd effeithiol o systemau a thechnoleg gwybodaeth, ac yn gwneud rhywfaint o gynydd gyda hyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r defnydd o systemau a thechnoleg gwybodaeth yn un o'r saith rhaglen strategol ar gyfer newid, ac mae'r rhaglen strategol ar gyfer TG wedi'i nodi yn y CTCl. Mae'r rhaglen strategol yn cefnogi buddsoddiad mewn seilwaith a chapasiti, er bod y gallu i weithredu'r rhaglen yn llawn yn dibynnu ar lwyddiant cynllun amlinellol strategol gwerth £21 miliwn. • Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymroi i ddysgu sut mae cyrff eraill y GIG yn defnyddio technoleg er mwyn deall a gwella profiad cleifion a gofal clinigol. Bu penodi'r Cyfarwyddwr Meddygol yn weithredwr arweiniol ar gyfer gwybodaeth yn allweddol yn hyn o beth. • Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad tuag at sefydlu systemau gwybodaeth effeithiol. Mae'r cynnydd hyd yma yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> – Wi-Fi ar bob safle ysbyty; – caffael meddalwedd SNAP 11 a Datix ar y we, a'u rhoi ar waith; – systemau newydd 'ar-lein': un system ar gyfer theatrau, porthol clinigol, e-atgyfeiriadau; – achosion busnes eraill yn mynd rhagddynt, er enghraifft, rhagnodi electronig; a – adolygiad o systemau amserlennu electronig yn mynd rhagddo. • Mae'r SPCC wedi cymeradwyo datblygu strategaeth gofal iechyd digidol, er mwyn cefnogi strategaeth fwy hirdymor i'r Bwrdd Iechyd.

Nid yw rôl y gwasanaeth nyrsio ardal wedi'i diffinio'n glir, ceir amrywio anesboniadwy yn y defnydd o nyrsys ardal, nid yw adnoddau a'r galw am y gwasanaeth wedi'u halinio'n ddigonol, ac fe geir diffyg trefniadau systematig ar gyfer monitro ansawdd a pherfformiad ar lefel y sefydliad

- 121.** Yn fy adolygiad, canfûm fod gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir ar gyfer darparu mwy o ofal yn y gymuned. Mae'n symud tuag at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i alinio gwasanaethau nyrsio ardal a chymuned er mwyn creu deg rhwydwaith iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol. Fodd bynnag, mae angen diffinio cylch gwaith nyrsys ardal, a datblygu cynlluniau gweithredol. Ceir llinellau atebolrwydd rheolaethol a phroffesiynol clir, ond mae'r ardaloedd yn gweithredu mewn seilo, gan olygu bod y dull o ddarparu gwasanaethau nyrsio ardal yn amrywio.
- 122.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn deall y galw am y gwasanaeth nyrsio ardal, a fesurir yn ôl niferoedd y llwythi achos ac anghenion lefel uchel, ond mae'r dull o fesul dibyniaeth yn anghyson, ac mae angen gwella'r rheolaeth ar y galw. Nid yw'n glir a oes gan y Bwrdd Iechyd y nifer na'r gymysgedd gywir o staff i fodloni'r galw, gyda niferoedd isel o staff yn ôl maint y boblogaeth gofrestredig, cyfran uchel o weithwyr cymorth gofal iechyd, ac amrywio rhwng y timau. Mae'r ardaloedd yn ystyried gofynion y gweithlu, ond nid yw'r niferoedd na'r gymysgedd o sgiliau wedi cael eu hadolygu ar lefel y Bwrdd Iechyd. Buddsoddir mewn hyfforddiant ffurfiol i staff nyrsio ardal, ond mae anghysondeb o ran cydymffurfio â'r broses arfarnu ac adolygu perfformiad yn tanseilio gallu'r Bwrdd Iechyd i ganfod bylchau mewn sgiliau. Yn y cyfamser, ceir risgiau corfforaethol a gweithredol yn gysylltiedig â lefelau isel o gydymffurfio â pheth hyfforddiant statudol a gorfodol.
- 123.** Mae'r amrywio anesboniadwy yn y defnydd o adnoddau a'u dosbarthiad yn golygu na all y Bwrdd Iechyd fod yn sicr bod ei staff nyrsio ardal yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol. Mae'r modd y bydd timau nyrsio ardal yn treulio'u hamser yn amrywio, ac mae'r staff wedi'u gwasgaru'n anwastad ar draws y llwythi achos. Mae timau nyrsio ardal yn cyflawni rôl rheolwr achosion, gan gydgyssylltu'r gwasanaethau gofal iechyd amrywiol y bydd cleifion yn eu derbyn. Fodd bynnag, nid oes unrhyw systemau ffurfiol i rannu gwybodaeth rhwng gwahanol dimau darparu gwasanaeth, a gellid gwneud mwy i gefnogi'r rheolaeth leol ar y llwyth achosion nyrsio ardal.
- 124.** Mae systemau ar waith yn lleol i fonitro ac adrodd ar berfformiad y gwasanaeth nyrsio ardal, ond mae'r rhain yn anghyson rhwng y gwahanol ardaloedd, ac mae lle i wella. Mae dangosfwrdd nyrsio cymunedol yn cael ei ddatblygu ac archwiliadau ymarfer blynyddol yn cael eu cynnal, ond nid yw'r defnydd a wneir o ganlyniadau archwilio yn eglur. Bydd nyrsys arweiniol yn cynnal cyfarfodydd gwybodaeth am ddiogelwch, ansawdd a risg, ond nid oes dull cyson ar gyfer casglu adborth gan gleifion. Yn fuan, bydd yr archwiliad Hanfodion Gofal yn cael ei ehangu i gynnwys y gwasanaethau nyrsio ardal, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn chwarae rhan weithgar yn natblygiad gwasanaethau nyrsio ardal ledled Cymru. Rhennir dysgu ac arfer da ar y cyfan, er gwaethaf safbwyntiau cymysg ynglŷn â'r graddau y caiff gwybodaeth ei rhaeadru, ac mae lle i gyrfhau'r trefniadau ar gyfer rhannu ar draws ardaloedd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd codio clinigol ac mae rhai o'r prosesau cysylltiedig yn gadarn, ond mae angen gwneud mwy i fynd i'r afael â'r ffactorau ehangach sy'n effeithio ar gywirdeb a phrydlondeb codio

- 125.** Mae codio data cleifion yn glinigol yn sail ar gyfer cynhyrchu gwybodaeth reoli a ddefnyddir gan gyrff y GIG i reoli eu busnes, ac yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd effeithlon ac effeithiol, a bod gwasanaethau'n ddiogel ac o ansawdd uchel. Yn ystod 2014, cynhaliodd fy nhîm adolygiad o drefniadau'r Bwrdd Iechyd i gynhyrchu gwaith codio clinigol amserol a manwl gywir. Cwblhawyd y gwaith ar y cyd â chydweithwyr o wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.
- 126.** Er bod pwysigrwydd codio clinigol yn cael ei gydnabod i ryw raddau, mae angen gwneud mwy i godi ei broffil a chanolbwyntio ar ffactorau ehangach sy'n effeithio ar ei gywirdeb. Ceir atebolrwydd clir ar gyfer codio, o safbwynt llywodraethol ac o safbwynt gweithredol, gyda chysylltiadau clir ag ansawdd data a chofnodion iechyd. Ceir hefyd ffocws cadarnhaol ar hyfforddi a datblygu codwyr. Fodd bynnag, mae'n bosibl nad oes digon o adnoddau ar gyfer codio clinigol, ac mae'r trefniadau ar gyfer codio clinigol a'r rheolaeth arnynt yn ddiffygiol. Ffocws pennaf y Bwrdd Iechyd yw adrodd data marwolaethau cywir, a phrydlondeb a chyflawnder gwaith codio. Caiff cywirdeb codio clinigol ei archwilio a'i ddilysu'n rheolaidd, ond ar wahân i ddangosyddion ansawdd data lefel uchel a ddarperir gan y sefydliad meincnodi CHKS, ni adroddir wrth y Bwrdd na'i is-bwyllgorau ynghylch cywirdeb codio clinigol. Nid yw'r Bwrdd felly'n gallu bod yn gwbl sicr ynghylch cadernid ei waith codio clinigol.
- 127.** Mae rhai agweddau ar y broses codio clinigol yn gadarn, ond ceir diffyg ymgysylltu clinigol, ac mae ansawdd y cofnodion meddygol yn amrywio'n sylweddol. Mae arferion codio clinigol ar draws y Bwrdd Iechyd yn gyson ar y cyfan, ac mae polisïau a gweithdrefnau lleol ar waith, er bod angen diweddarau'r rhain. Mae mynediad at wybodaeth yn dda ar y cyfan, ond mae ansawdd cofnodion iechyd yn amrywio, gyda risgiau'n tarddu o'r defnydd o nodiadau dros dro. Mae'r dull codio yn gadarn ar y cyfan, a'r prosesau ar gyfer dilysu ac archwilio yn gadarnhaol gyda chyfleoedd i ymwreiddio'r rhain ymhellach. Bu gweithlu sefydlog gyda dilyniant gyrfa clir, ond mae angen gwneud mwy i sicrhau bod digon o amser i fentora hyfforddeion yn briodol, ac mae angen gwell ymgysylltu rhwng clinigwyr a'r broses godio.
- 128.** Mae data codio clinigol yn bodloni'r targedau ar gyfer dilysrwydd a chysondeb, yn cael ei ddefnyddio mewn modd priodol ac o safon dda ar y cyfan. Fodd bynnag, mae prydlondeb yn dirywio ac er bod cywirdeb y gwaith codio yn dda ar y cyfan, ceir rhai problemau'n gysylltiedig â chywirdeb data, a byddai aelodau'r Bwrdd yn hoffi gwybod mwy am gywirdeb codio a goblygiadau hynny.

Mae galw cynyddol am wasanaethau orthopedig yn rhoi pwysau ar wasanaethau cleifion allanol, ac mae agweddau aneffeithlon ar y llwybr cleifion mewnol yn effeithio ar y defnydd o adnoddau ac ar brofiad y claf, gyda rhai canlyniadau ar ôl llawdriniaeth yn llai cadarnhaol nag mewn manau eraill

129. Mae fy nghasgliad ynghylch effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd gwasanaethau orthopedig yn y Bwrdd Iechyd yn seiliedig ar y data a gasglwyd yn rhan o'm hadolygiad cenedlaethol o wasanaethau orthopedig yng Nghymru, sydd i'w gyhoeddi yn gynnar yn 2015. Mae fy nadansoddiad o ddata Cymru gyfan wedi dangos y canlynol o fewn y Bwrdd Iechyd:

- bod y buddsoddiad mewn gwasanaethau gofal sylfaenol yn isel ac yn gostwng, tra bo cyfraddau atgyfeirio meddygon teulu yn cynyddu ac erbyn hyn gyda'r uchaf yng Nghymru, ac mae'r Gwasanaeth Aseidiadau a Thriniaethau Cyhyrsgerbydol Clinigol yn ei chael hi'n anodd ateb y galw;
- bod y galw cynyddol ymhlith cleifion allanol yn rhoi pwysau ar amserau aros, ynghyd â'r cyfraddau uchel o gleifion sy'n methu neu'n canslo apwyntiadau, er bod gwasanaethau ffisiotherapi a radioleg yn ateb y galw ar y cyfan;
- bod y defnydd o adnoddau cleifion mewnol yn amrywio ar draws safleoedd ysbty'r Bwrdd Iechyd, a bod lle i wella cyfraddau achosion dydd, aseidiadau prydlon cyn llawdriniaethau, y defnydd o theatrau, y gyfradd llenwi gwelyau, a lleihau nifer y triniaethau a roddir nad ydynt yn effeithiol iawn hyd yr eithaf; a
- eir ar drywydd cleifion, er bod rhai canlyniadau'n llai cadarnhaol o'u cymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru, gyda chyfraddau uwch o farwolaethau ymhlith llawdriniaethau orthopedig dewisol, ac o heintiau ar ôl llawdriniaeth.

Mae data absenoldeb salwch a ddefnyddir ar gyfer rheoli perfformiad yn ddibynadwy, ac mae mewnbyn y weithrediaeth wedi gwella rheolaeth a chraffu ar absenoldeb salwch, er bod angen datganoli hyn ymhellach yn y tymor hwy

130. Yn fy adolygiad o absenoldeb salwch yn 2013, nodwyd lefelau uchel o absenoldeb salwch, a diffyg hyder gweithredol yn y data a ddefnyddir ar gyfer rheoli perfformiad corfforaethol. Yn 2014, cynhaliais archwiliad o ddangosyddion perfformiad er mwyn asesu dibynadwyedd data, a chasglu bod modd cael sicrwydd ynghylch cywirdeb y ffigurau absenoldeb salwch a adroddwyd. Canfûm:

- nad oedd unrhyw ddiffygion sylweddol yn y broses a ddefnyddir i gasglu data absenoldeb salwch;
- nad oedd unrhyw broblemau'n gysylltiedig â'r cyfrifiad a ddefnyddiwyd i bennu'r dangosydd perfformiad absenoldeb salwch a fyddai'n cael effaith sylweddol ar y gallu i fonitro a rheoli absenoldeb salwch ar lefel y sefydliad; a
- threfniadau dadansoddi a dilysu cryf a arweinir gan y gyfarwyddiaeth gyllid.

131. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, sylwais hefyd fod uwch reolwyr wedi ymdrechu a buddsoddi'n sylweddol er mwyn gwella rheolaeth a chraffu ar absenoldeb salwch. Wrth symud ymlaen, bydd angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y rheolaethau hyn yn cael eu hymwreiddio a'u dirprwyo ar draws y sefydliad, er mwyn sicrhau bod yr amser a fuddsoddir gan uwch reolwyr yn dychwelyd i lefelau mwy cynaliadwy.

Mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o archwiliadau blaenorol, ond gallai'r ymateb fod yn gyflymach, ac mae camau gweithredu yn dal heb eu cyflawni mewn ambell faes allweddol

132. Yn ogystal ag adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd lechyd i reoli ac ymateb i argymhellion a wnaed yn rhan o'r rhaglen archwilio leol ac yn rhan o'm rhaglen archwilio a orfodir yn genedlaethol, fel y trafodwyd ym mharagraff 99, rwyf wedi ystyried cyflawnder a phrydlondeb y camau a gymerwyd. Er bod y Bwrdd lechyd yn gallu arddangos cynnydd wrth ymateb i'm hargymhellion, canfûm yn fy ngwaith y gellir gwella prydlondeb y Bwrdd o ran dechrau a chwblhau camau gweithredu. Canfûm yn benodol:

- Fod gan y Bwrdd lechyd ymagwedd ystyriol at ddatblygu cynlluniau gweithredu, ond bod arafwch wrth gynhyrchu cynlluniau gweithredu wedi golygu bod cyfnod hir wedi mynd heibio cyn cychwyn camau i ymateb i'r argymhellion a wnaed gennyf yn 2014.
- Y cymerwyd camau i ymateb i 24 o'r 34 o argymhellion a wnaed gennyf yn ystod 2013. Mae a wnelo saith o'r deg o argymhellion sy'n mynd rhagddynt â rhagnodi gofal sylfaenol, ac mae un cam gweithredu yn gysylltiedig ag absenoldeb salwch yn hwyr o gymharu â'r graddfeydd amser cynlluniedig.
- Adroddir bod camau i ymateb i'm hargymhellion yn 2012 wedi'u cwblhau'n llwyr, ac nid ydynt wedi'u cynnwys mwyach yng nghofnod olrhain argymhellion y Pwyllgor Archwilio. Bydd fy adolygiad dilynol o theatrau llawdriniaeth yr wyf yn gweithio arno ar hyn o bryd yn asesu'r cynnydd a wnaed ac effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i ymateb i'r argymhellion.
- Mae'r Bwrdd yn dal heb ymateb i bump o'r deg o argymhellion a wnaed yn 2011, ac yn hwyr yn ymateb iddynt. Mae a wnelo'r meysydd hyn â mynediad yn y gymuned at systemau TG, staffio meddygol a darparu gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol cynhwysfawr. Er bod y materion hyn yn heriol, byddem wedi disgwyl cynnydd yn gysylltiedig â hwy o fewn y raddfa amser.

133. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf hefyd wedi gwneud gwaith archwilio dilynol manwl i asesu'r cynnydd a wnaed ers fy adolygiad o wasanaethau arlwyo mewn ysbytai yn 2010. Canfûm fod y Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd tuag at weithredu fy argymhellion mewn perthynas â gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion, ond mae sawl mater pwysig yn dal heb ei ddatrys. Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- er y cafwyd datblygiadau o ran monitro a meincnodi dangosyddion a mesurau lleol a chenedlaethol, ceir pryderon nad yw'r Bwrdd mewn sefyllfa i graffu'n ddigonol ar berfformiad ym maes arlwyo a maeth;

-
- mae'r Bwrdd yn gwneud cynnydd tuag at un dull o gynhyrchu bwyd, ac mae model arlwy'o'r wardiau wedi gwella mewn rhai manau, ond nid yw'r trefniadau wedi'u safoni eto, ac nid yw'r gwaith i asesu maeth yr holl ryseitiau a bwydlenni a ddatblygwyd yn lleol wedi'i gwblhau eto.
 - ceir dealltwriaeth gliriach o gost cynhyrchu a chyflenwi bwyd, gan gynnwys yr angen i reoli goblygiadau cost Contractau Cymru Gyfan ar gyfer bwyd, ac effaith ariannol cystadleuaeth gan allfeydd bwyd y tu allan i'r GIG.
 - mae'r nifer sy'n cydymffurfio ag offeryn e-ddysgu asesu maeth Llywodraeth Cymru ar gyfer nyrsys, a'r nifer o staff nyrsio sy'n manteisio ar hyfforddiant diogelwch bwyd yn isel;
 - cafwyd cynnydd gyda rhai agweddau ar sgrinio a chynllunio maethol, ond mae angen i'r Bwrdd lechyd barhau i ganolbwyntio ar wella'r cyfraddau cydymffurfio, yn enwedig ar gyfer sgrinio dilynol; ac
 - mae'r rhan fwyaf o'r staff yn gweithio i ddiogelu amseroedd prydau bwyd, ond sylwyd bod arferion yn amrywio a bod angen gwella'r wybodaeth i gleifion am fwyd a maeth.

Atodiad 1

Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

Adroddiad	Dyddiad
Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2014	Mawrth 2014 (diweddarwyd Mai 2014 i gynnwys gwybodaeth am y ffi derfynol)
Adroddiadau archwilio ariannol	
Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol	Mehefin 2014
Barn ar y Datganiadau Ariannol	Mehefin 2014
Barn ar y ffurflen Cyfrifon Llywodraeth Gyfan	Gorffennaf, 2014
Barn ar y Datganiadau Ariannol Cryno	Medi 2014
Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol y Cronfeydd Elusennol	Tachwedd 2014
Barn ar Ddatganiadau Ariannol y Cronfeydd Elusennol	Rhagfyr 2014
Adroddiadau archwilio perfformiad	
Adolygiad dilynol o Arlwyo	Gorffennaf, 2014
Archwiliad DP: data absenoldeb oherwydd salwch	Gorffennaf, 2014
Codio Clinigol	Tachwedd 2014
Asesiad Strwythuredig 2014 (Adroddwyd ar y modiwl rheoli ariannol Hydref 2014)	Ionawr 2015
Adolygiad o Wasanaethau Orthopedig	Ionawr 2015
Adolygiad Nyrsio Cymunedol	Ionawr 2015

Mae nifer o archwiliadau perfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Dangosir y rhain isod, ynghyd ag amcan o'r dyddiadau cwblhau ar gyfer y gwaith.

Adroddiad	Amcan o'r dyddiad cwblhau
Adolygiad dilynol o theatrau llawdriniaeth	Mawrth 2015
Adolygiad Diagnostig TGCh	Ebrill 2015
Adolygiad Rheoli Meddyginiaethau	Mai 2015
Adolygiad o apwyntiadau dilynol cleifion allanol	Mai 2015

Atodiad 2

Ffi archwilio

Yn Amlinelliad o Waith Archwilio 2014, nodwyd y ffi archwilio arfaethedig o £423,238 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn seiliedig ar y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

Mae cost y gwaith archwilio a wnaed mewn perthynas â'r gwasanaethau a rennir, ac a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd drwy'r Bartneriaeth Cydwasanaethau, wedi'u cynnwys yn y ffi a nodir uchod

Atodiad 3

Risgiau archwilio sylweddol

Yn fy Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2014, nodwyd y risgiau archwilio ariannol o bwys ar gyfer 2014. Yn y tabl isod, rhestrir y risgiau hyn, a nodir sut yr ymdriniwyd â hwy yn rhan o'r archwiliad.

Risg archwilio o bwys	Ymateb archwilio arfaethedig	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
Mae'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru'r rheolaethau yn risg gynhenid sy'n bresennol ym mhob endid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Oherwydd y gallai'r diystyru hwn fod yn anrhagweladwy, fe'i hystyriir bob amser yn risg sylweddol o dan y safonau archwilio (ISA 240.31-33).	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none">• profi cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol er mwyn canfod a ydynt yn briodol;• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu er mwyn canfod unrhyw duedd; a• gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion sylweddol nad ydynt yn rhan o fusnes arferol.	Ni chanfuwyd unrhyw faterion yn ein hadolygiad, nac wrth profi cofnodion dyddlyfrau. Adroddwyd un mater gennym yn gysylltiedig â chyfrifo amcangyfrif y cronid rhagnodi. Ni nodwyd unrhyw faterion yn gysylltiedig ag unrhyw amcangyfrifon eraill o bwys yn y cyfrifon.
Mae'r risg o gamddatganiad o bwys oherwydd twyll wrth gydnabod referniw yn risg gynhenid a geir ym mhob endid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Gan hynny, ystyriir hyn hefyd yn risg sylweddol yn y safonau archwilio [ISA 240.26-27].	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none">• adolygu a phrofi'r ffrydiau ariannu ac incwm unigol a dderbynnir gan y Bwrdd Iechyd; ac• ystyried a yw pob ffrwd ariannu ac incwm wedi'i nodi.	Ni nodwyd unrhyw faterion yn gysylltiedig â chydabod referniw, wrth adolygu a phrofi incwm a gwariant.
Ceir risg sylweddol na fydd y Bwrdd Iechyd yn bodloni ei derfyn adnoddau referniw. Mae'r pwysau ariannol presennol ar y Bwrdd Iechyd yn cynyddu'r risg o duedd ym marn ac amcangyfrifon rheolwyr, wrth ymdrechu i fodloni'r terfyn adnoddau referniw yn ogystal â'r terfyn adnoddau cyfalaf.	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none">• canolbwyntio ar rannau o'r datganiadau ariannol a allai ddangos tuedd wrth adrodd wrth gynnal ei brofion;• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol, fel y nodwyd uchod; a• chynnal profion i sicrhau bod incwm a gwariant yn cael eu cydnabod yn y cyfnod cyfrifyddu cywir.	Gweithredodd y Bwrdd Iechyd sawl cam, ac yn sgil hynny cyrhaeddodd ei holl dargedau ariannol ar gyfer 2013-14. Ni chanfuwyd unrhyw gamddatganiadau o bwys wrth brofi'r agweddau canlynol: tuedd wrth adrodd, amcangyfrifon sylweddol ac incwm a gwariant. Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn archwilio ddiamed ar y datganiadau ariannol.

Risg archwilio o bwys	Ymateb archwilio arfaethedig	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
<p>Ar 1 Ebrill 2013, trosglwyddwyd rhai gwasanaethau yr oedd y Bwrdd Iechyd yn eu cynnal i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cafodd gwasanaeth clinig IVF hefyd ei drosglwyddo i'r Bwrdd Iechyd. Mae'n rhaid rhoi cyfrif priodol am y trosglwyddiadau hyn yn y cyfrifon blynyddol.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn trafod â'r swyddogion ac yn gwirio er mwyn sicrhau y rhoddwyd cyfrif priodol am y trosglwyddiadau hyn ar y datganiadau ariannol.</p>	<p>Adolygwyd y ffurflenni trosglwyddo a roddai grynodedeb o'r adnoddau fyddai'n cael eu trosglwyddo i PCGC, a chadarnhau y rhoddwyd cyfrif am y trosglwyddiad mewn modd priodol.</p>

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk